General Pharmaceutical Council

# Ymgynghoriad ar ddatblygu ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig

## *Adroddiad dadansoddi*

## 1. Cefndir polisi

1.1. Rhwng Mai ac Awst 2018, ymgynghoron ni ar gynigion i ddatblygu ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig.

1.2. Mae'r cynigion hyn yn adeiladu ar y gwelliannau rydyn ni wedi eu cyflwyno dros y bum mlynedd diwethaf ac yn adlewyrchu'r newid cyson sy'n digwydd mewn fferylliaeth – gyda chyflwyno modeli gwasanaeth newydd a defnydd helaethach ar dechnoleg.

1.3. Rydym yn dal yn ymrwymedig at swyddogaeth ddeuol rheoleiddio fferylliaeth, sef darparu sicrwydd a gyrru gwelliant, fel y'i mynegir yn ein cynllun strategol. Rydym hefyd yn dal yn ymrwymedig at ein safonau sydd â 'deilliannau yn ganolog' a'n dull arolygu 'dangos a dweud' a gyflwynwyd yn 2013, sydd hefyd yn galluogi arolygwyr i ystyried pob gwasanaeth fferyllol a ddarperir a chynnwys y tîm fferyllol cyfan mewn arolygiadau.

1.4. Fodd bynnag, ein bwriad yw symud i ffwrdd o'r dull 'yr un peth i bawb' a thuag at reoleiddio sy'n fwy hyblyg, ystwyth ac ymatebol.

## 2. Ein cynigion yn gryno

2.1. Er mwyn cyflawni'r amcanion uchod, rydym yn awgrymu'r newidiadau canlynol i'n dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig:

1) **Cyflwyno tri math o arolygiad: arolygiadau arferol, arolygiadau wedi'u seilio ar wybodaeth ac arolygiadau thematig**. Byddai hyn yn ein galluogi i fod yn fwy ystwyth ac ymatebol i'r wybodaeth sydd gennym a'r wybodaeth a dderbyniwn.
2) **Symud tuag at arolygiadau heb rybudd fel rheol arferol.** Byddai hyn ein galluogi i sicrhau bod canlyniadau arolygiadau'n adlewyrchu a ydy fferylliaeth yn cyrraedd y safonau bob dydd.
3) **Newid canlyniadau arolygiadau.** Rydym yn cynnig newid ein system raddio bresennol, fel bod dau ganlyniad posibl – 'safonau wedi eu cyrraedd' neu 'safonau i gyd heb eu cyrraedd', a phedwar canfyddiad posibl ar lefel yr egwyddorion – 'safonau i gyd heb eu cyrraedd', 'safonau wedi eu cyrraedd', 'arfer dda' ac 'arfer ragorol'.
4) **Angen cyrraedd pob safon i gael canlyniad 'safonau i gyd wedi eu cyrraedd' cyffredinol.**
5) **Cyhoeddi adroddiadau arolygu.** Ein bwriad yw cyhoeddi adroddiadau arolygu, a chynlluniau gwella pan yn berthnasol, ar wefan newydd.

6) **Rhannu enghreifftiau o ymarfer nodedig.** Ein bwriad yw cyhoeddi enghreifftiau o ymarfer nodedig y down ar eu traws wrth arolygu mewn 'hyb gwybodaeth' ar y wefan newydd, er mwyn annog dysgu a gwelliant parhaus mewn fferylliaeth.

2.2. Gofynnodd ein hymgynghoriad am farn ar y cynigion uchod, a'u heffaith ar gleifion a'r cyhoedd, perchnogion fferyllfeydd a'r tîm fferyllol ehangach.

# 3. Ynghylch yr ymgynghoriad

## 3.1 Trosolwg

3.1.1. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am ddeuddeg wythnos, yn dechrau ar 17 Mai ac yn dod i ben ar 9 Awst 2018. I sicrhau ein bod yn clywed barn cynifer â phosibl o unigolion a sefydliadau:

- Cynhaliom grwpiau ffocws gyda chleifion a'r cyhoedd i glywed eu barn ar y cynigion, cyn yr ymgynghoriad.
- Cwrddom â nifer o randdeiliaid allweddol yn y tair gwlad rydyn ni'n eu rheoleiddio.
- Cynhaliom arolwg ar-lein, oedd ar gael i'w chwblhau gan unigolion a sefydliadau gydol y cyfnod ymgynghori. Daeth nifer o ymatebion i lawr drwy e-bost hefyd.
- Comisiynom arolwg YouGov Omnibus, oedd yn cynnwys cwestiynau ynghylch cynigion yr ymgynghoriad, er mwyn clywed barn y cyhoedd.
- Mynychom gyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfarfodydd Pwyllgorau Fferyllol Lleol ar hyd a lled Lloegr a chyfarfod Cyfarwyddwyr Fferylliaeth yn yr Alban.
- Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo drwy ddatganiad i'r wasg a chyfryngau'r fasnach fferylliaeth, drwy ein cyfryngau cymdeithasol a'n cyhoeddiad ar-lein Regulate.

## 3.2 Grwpiau ffocws cleifion

3.2.1. Trefnom dri grŵp ffocws gyda chleifion ac aelodau o'r cyhoedd, a gynhaliwyd ymhob un o dair gwlad Prydain yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2017.

3.2.2. Cafwyd mewnwelediad gwerthfawr drwy gyfrwng y grwpiau hyn i'r ffordd y mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu defnyddio gan gleifion a'r cyhoedd. Helpodd adborth cyfranogwyr ni i roi ein cynigion ynghylch cyhoeddi ar brawf a llywiodd ein barn cyn lansio'r ymgynghoriad.

## 3.3 Cyfarfodydd a digwyddiadau rhanddeiliaid

3.3.1. Dros y chwe mis diwethaf rydym wedi cwrdd â nifer o randdeiliaid gwleidyddol allweddol ar hyd a lled y tair gwlad rydym yn rheoleiddio ynddynt gan amlinellu ein cynigion ynghylch rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig. Bu modd i ni, drwy'r rhain, glywed eu hadborth ar ein cynigion.

3.3.2. Ym Mehefin/Gorffennaf 2018 mynychodd arolygwyr CFfC 21 o ddigwyddiadau Pwyllgorau Fferyllol Lleol ar hyd a lled Lloegr a chyfarfod o Gyfarwyddwyr Fferyllol yr Alban. Rhoddon nhw gyflwyniad ar ein hymgynghoriad a hwyluso trafodaeth ar ein cynigion, a ysgogodd fewnwelediad defnyddiol o'r sector fferyllol cymunedol.

### 3.4 Arolwg yr ymgynghoriad

3.4.1. Derbyniom **812** o ymatebion ysgrifenedig i'n hymgynghoriad. Nododd **685** o ymatebwyr eu bod yn ymateb fel unigolion ac ymatebodd **127** ar ran sefydliad.

3.4.2. Cwblhaodd **807** o ymatebwyr ein harolwg ymgynghori. Defnyddiodd y rhan fwyaf o'r rhain fersiwn ar-lein yr arolwg, gyda'r gweddill yn ymateb drwy e-bost gan ddefnyddio'r holiadur ymgynghori.

3.4.3. Ochr yn ochr â'r rhain, derbyniom 5 ymateb gan unigolion a sefydliadau'n ysgrifennu'n fwy cyffredinol am eu barn.

### 3.5 Arolwg YouGov

3.5.1. Comisiynom YouGov i gynnal arolwg yn ymchwilio i farn y cyhoedd ar gynigion yr ymgynghoriad, yn ogystal â gwasanaethau fferyllol ar-lein, oedd yn bwnc papur trafod CFfC ar wahân.

3.5.2. Holodd YouGov 2040 o oedolion oedd yn byw ym Mhrydain ac fe rannwyd canlyniadau'r arolwg gyda'r CFfC. Gwnaed gwaith maes rhwng 8 a 9 Awst 2018. Gwnaed yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi eu pwysoli ac yn gynrychioladol o holl oedolion (oed 18+) Prydain.

## 4. Ein dull dadansoddi ac adrodd

### 4.1. Trosolwg

4.1.1. Rydym wedi ystyried pob ymateb a ddaeth i law, yn ogystal â nodiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau rhanddeiliaid, wrth ddatblygu ein dadansoddiad ansoddol ar themâu a materion a gododd yn yr ymgynghoriad. Mae ein dull thematig yn ein galluogi i gynrychioli'n deg yr ystod eang o farn a gyflwynwyd, boed gan unigolion neu sefydliadau, a boed yn ysgrifenedig neu mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau.

4.1.2. Roedd y gwahanol ffyrdd y gallai unigolion a sefydliadau gyfrannu at yr ymgynghoriad yn golygu bod rhywfaint o ailadrodd yn annatod. Er enghraifft, mae rhai sefydliadau wedi cwrdd â ni mewn cyfarfodydd a digwyddiadau un-wrth-un, a hefyd wedi cyflwyno ymateb ysgrifenedig. Roedd rhai sefydliadau hefyd yn gallu annog aelodau unigol i ymateb i ni'n uniongyrchol.

4.1.3. Arolwg hunan-ddewis oedd elfen ganolog yr ymgynghoriad hwn, a gafodd ei gynnal ar blatfform ar-lein Smart Survey. Fel gydag unrhyw ymgynghoriad, rydym yn disgwyl bod unigolion neu grwpiau sy'n ystyried y byddai'r cynigion yn effeithio'n benodol arnyn nhw, neu sydd â barn gref ar y mater, yn fwy tebygol o fod wedi ymateb.

4.1.4. Er mwyn bod yn dryloyw, mae rhestr o'r sefydliadau sydd wedi ymwneud â'r ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, ymateb drwy e-bost a/neu gyfrannu at gyfarfodydd neu ddigwyddiadau yn Atodiad 1.

4.1.5. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad 2.

4.1.6. Mae Atodiad 3 yn cyflwyno tablau ychwanegol ynghylch cwestiynu o arolwg YouGov, y cyfeirir atynt yn ein prif adroddiad.

### 4.2. Ein dull dadansoddi ansoddol

4.2.1. Mae'r adroddiad dadansoddi hwn yn cynnwys dadansoddiad ansoddol ar bob ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion i'r holiadur ar-lein gan unigolion a sefydliadau, ymatebion drwy e-bost a nodiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau rhanddeiliaid.

4.2.2. Datblygwyd fframwaith codio i nodi materion a phynciau oedd yn codi yn yr ymatebion, i adnabod patrymau a pha mor aml roedd gwahanol syniadau'n codi i'n helpu i strwythuro ein dadansoddiad. Adeiladwyd y fframwaith o'r gwaelod i fyny drwy broses iteraidd o nodi'r hyn oedd yn dod i'r amlwg drwy'r data, yn hytrach na gosod fframwaith haearnaidd cyn cychwyn dadansoddi'r data.

4.2.3. Diben y dadansoddiad oedd adnabod themâu cyffredin yn ymatebion y rhai oedd yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn hytrach na dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng grwpiau penodol neu is-grwpiau o ymatebwyr.

4.2.4. Mae'r gair 'ymatebwyr' a ddefnyddir gydol y dadansoddiad yn cyfeirio at y sawl a gwblhaodd holiadur yr ymgynghoriad a'r rhai a gyfrannodd at ddigwyddiadau rhanddeiliaid. Mae'n cynnwys unigolion a sefydliadau.

4.2.5. Nid oedd arolwg YouGov yn cynnwys unrhyw gwestiynau penagored. Dim ond yn ein dadansoddiad meintiol y mae'n cael ei adlewyrchu felly.

## 4.3. Ein dull dadansoddi meintiol

4.3.1. Roedd holiadur ar-lein yr ymgynghoriad yn cynnwys nifer o gwestiynau meintiol, yn cynnwys cwestiynau ie/na a graddfeydd effaith. Mae pob ymateb wedi ei goladu a'i ddadansoddi gan gynnwys y rhai a gafodd eu cyflwyno drwy e-bost yn defnyddio'r ddogfen ymgynghori. Mae'r rhai a ymatebodd mewn ffordd fwy cyffredinol drwy e-bost yn cael eu hadlewyrchu yn y dadansoddiad ansoddol yn unig.

4.3.2. Mae ymatebion wedi cael eu gosod mewn haenau yn ôl y math o ymatebwr, er mwyn peidio â rhoi pwysau cydradd i ymatebion gan unigolion a sefydliadau (a allai, o bosibl, gynrychioli cannoedd o unigolion). Maen nhw wedi eu cyflwyno ochr yn ochr, fodd bynnag, mewn tablu drwy gydol yr adroddiad hwn, er mwyn helpu i weld a oedd gwahaniaethau sylfaenol rhwng y categorïau hyn o ymatebwyr.

4.3.3. Mae'r tablau sydd yn yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r nifer o ymatebwyr a ddewisodd wahanol atebion i gwestiynau'r arolwg. Mae trefn y cwestiynau yn yr arolwg wedi ei dilyn yn y dadansoddiad.

4.3.4. Mae canlyniadau arolwg YouGov wedi eu hystyried yn y dadansoddiad o ymatebwyr. Fodd bynnag, nid oedd cwestiynau'r arolwg hwnnw'n cynnwys holl gynigion yr ymgynghoriad ac roeddent wedi eu gosod mewn ffordd wahanol er mwyn i'r gynulleidfa darged eu deall - hynny yw, aelodau o'r cyhoedd. Felly nid oes adrodd cyson arnynt yn yr adroddiad. Maen nhw wedi eu hadlewyrchu yn y meysydd perthnasol lle roedd cwestiynau'r ymgynghoriad yn gorgyffwrdd gyda chwestiynau o arolwg YouGov. Mae rhai cwestiynau ychwanegol a chanlyniadau'r rhain wedi eu cynnwys yn Atodiad 3.

4.3.5. Mae ffigurau yn yr adroddiad yn cael eu dangos heb bwyntiau degol ac maent wedi eu cronni at y rhif cyflawn nesaf. Mae hyn yn golygu nad yw'r canrannau yn y tablau wastad yn dod i gyfanswm o 100 y cant. Mae'r cronni hwn hefyd yn arwain at wahaniaethau o hyd at un pwynt canran pan gyfunir dau neu ragor o gategorïau ymateb. Yn ogystal, pan fo ffigur sy'n is na 0.5 y cant yn y tablau, mae wedi ei nodi fel <1 y cant, yn hytrach na 0 y cant.

## 4.4. Strwythur arolwg yr ymgynghoriad

4.4.1. Roedd arolwg yr ymgynghoriad wedi ei strwythuro fel bod pob cwestiwn caeedig ynghylch cynigion yr ymgynghoriad yn cael ei ddilyn gan un neu ragor o gwestiynau penagored. Roedd hyn yn galluogi pobl i esbonio eu rhesymeg, rhoi enghreifftiau a nodi sylwadau pellach.

4.4.2. Er mwyn gallu cyfeirio ati'n hawdd rydyn ni wedi strwythuro adran ddadansoddi'r adroddiad mewn ffordd sy'n adlewyrchu tref cynigion yr ymgynghoriad. Mae hyn wedi ein galluogi i gyflwyno'n dadansoddiad ansoddol a'n dadansoddiad meintiol ochr yn ochr â'i gilydd, gyda'r dadansoddiad thematig yn gwirio ac yn rhoi ystyr i'r canlyniadau rhifol sydd yn y tablau.

# Dadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad a digwyddiadau ymglymu: yr hyn a glywom

## 5. Cyflwyno mathau newydd o arolygiadau: yr hyn a glywom

*Tabl 1. Barn ar arolygiadau: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| Ydych chi'n credu y bydd y tri math o ymgynghoriad yn: | - rhoi rhagor o sicrwydd bod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau? | | | - ein galluogi i fod yn fwy ystwyth ac ymatebol i risgiau neu newidiadau mewn fferylliaeth neu ofal iechyd? | | | - helpu i yrru gwelliannau drwy adnabod a rhannu arfer dda? | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfan. N unig. + sefyd. | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfan. N unig. + sefyd. | N a % unigolion | N a % unigolion | Cyfan. N unig. + sefyd. |
| **Byddan** | 512 (75%) | 95 (77%) | **607 (75%)** | 481 (70%) | 81 (66%) | **562 (70%)** | 499 (73%) | 88 (72%) | **587 (73%)** |
| **Na fyddan** | 119 (17%) | 17 (14%) | **136 (17%)** | 113 (17%) | 17 (14%) | **130 (16%)** | 106 (16%) | 19 (15%) | **125 (16%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 53 (8%) | 11 (9%) | **64 (8%)** | 90 (13%) | 25 (20%) | **115 (14%)** | 79 (12%) | 16 (13%) | **95 (12%)** |
| **Cyfan. N ymatebion** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

5.1. Fel yr adlewyrchir yn ffigurau Tabl 1 uchod, roedd mwyafrif clir o unigolion a sefydliadau (rhwng dwy ran o dair a thri chwarter) yn cefnogi ein cynigion ar gyfer y tri math o arolygiad ac yn teimlo y byddai'r rhain yn:

- Rhoi rhagor o sicrwydd
- ein galluogi i fod yn fwy ystwyth ac ymatebol i risgiau neu heriau
- helpu i yrru gwelliannau

5.2. Rhoddodd rhwng chwarter a thros draean o'r ymatebwyr i arolwg yr ymgynghoriad sylwadau penagored ar y cwestiynau ymgynghori perthnasol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain, a mwyafrif y sylwadau a wnaed mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid, yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol y newidiadau arfaethedig i arolygiadau fferyllol. Roedden nhw'n croesawu dull mwy targedig a blaenoriaethu arolygiadau rheolaidd ar sail risgiau.

5.2.1. Roedd llawer o sylwadau'n cefnogi'r syniad o arolygiadau ar sail gwybodaeth ac arolygiadau thematig, ac yn rhannu'r farn y byddai'r rhain yn helpu'r CFfC i fod yn fwy ymatebol i faterion wrth iddynt godi. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'r rhain yn rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd bod y rheoleiddiwr yn gwrando ac yn ymateb i faterion ac y byddai'n ymchwilio i bryderon pan yn briodol.

5.2.2. Roedd rhai hefyd yn teimlo y byddai arolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth yn gallu dod â materion i'r golwg, megis amodau gwaith anodd, a gwella'r amgylchedd gwaith ar gyfer staff fferyllol, yn enwedig os daw cyflwyno gwybodaeth i'r CFfC yn broses hawdd ac uniongyrchol.

5.2.3. Rhoddwyd croeso i arolygiadau thematig am eu potensial i ddarparu mewnwelediad trylwyr i faterion penodol, i ddod â themâu a phryderon cyffredin i'r amlwg a darparu adnodd defnyddiol i fferylliaeth allu rhannu dysg a gwella gwasanaethau.

5.2.4. Roedd ambell farn ac awgrymiadau gwahanol ynghylch y mathau newydd o arolygiadau. Er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr yn poeni am faich ychwanegol arolygiadau'r CFfC – e.e. cynnydd o bosibl yn nifer neu hyd yr arolygiadau.

5.2.5. Awgrymodd rhai bod angen proses wydn a thryloyw i werthuso ansawdd gwybodaeth a gyflwynir i'r CFfC, er mwyn adnabod pryderon nad ydyn nhw'n ddidwyll neu sy'n ddialgar, neu wrthdaro buddiannau posibl. Roedd eraill yn cwestiynu gwerth arolygiadau thematig a defnydd y term 'arolygiadau thematig'.

5.2.6. Derbyniom hefyd rai sylwadau/awgrymiadau eraill, ynghylch:

- yr angen i gael rhagor o eglurder ynghylch strwythur, nod ac adrodd arolygiadau thematig, a'r themâu y byddai'r CFfC yn eu harolygu
- meysydd i'w hystyried yn ystod arolygiadau, neu fel themâu posibl ar gyfer arolygiadau thematig - e.e. lefelau staffio, cyfraddau absenoldeb, cyfeiriad presgribsiynu, adborth gan gleifion ac ati
- sbardunau posibl ar gyfer arolygiad – e.e. goruchwyliwr/perchennog newydd, darpariaeth gwasanaethau cymhleth ac ati
- cyfle i fferyllwyr neu sefydliadau, megis GIG Lloegr, awgrymu themâu ar gyfer arolygiadau
- cynnal arolygiadau cudd

## 6. Symud tuag at arolygiadau heb rybudd: yr hyn a glywom

*Tabl 1 YouGov. Symud tuag at arolygiadau heb rybudd*

| Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC), rheoleiddiwr fferyllol Prydain, yn arolygu fferyllfeydd.<br>Ar hyn o bryd mae fferyllfeydd fel arfer yn cael gwybod y byddant yn cael eu harolygu ryw ben yn ystod y 4-6 wythnos nesaf.<br>Mae'r CFfC yn cynnig gwneud y rhan fwyaf o'u harolygiadau yn rhai heb rybudd. Wrth hynny, golygwn na fyddai staff fferyllol yn cael gwybod o flaen llaw bod arolygiad i ddigwydd.<br>I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol?<br>**Bydd symud tuag at arolygiadau heb rybudd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd bod fferyllfeydd yn cyrraedd safonau gofal diogel ac effeithiol** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 846 | 41% |

| | | |
|---|---|---|
| Tueddu i gytuno | 768 | 38% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 253 | 12% |
| Tueddu i anghytuno | 32 | 2% |
| Anghytuno'n gryf | 18 | 1% |
| Ddim yn gwybod | 124 | 6% |
| **Sail: Holl oedolion Prydain** | **2040** | **100%** |

6.1. Fel yr adlewyrchi yn y Tabl uchod, roedd aelodau'r cyhoedd yn gryf o blaid y dull. Roedd saith deg nawr y cant o'r rhai a ymatebodd i arolwg YouGov yn cytuno gyda'r cynnig a dim ond dau y cant oedd yn anghytuno.[1]

*Tabl 2. Barn ar symud tuag at arolygiadau heb rybudd: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| **Ydych chi'n credu bod symud o arolygiadau gyda rhybudd i rai heb rybudd fel rheol gyffredinol yn rhoi mwy o sicrwydd bod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau bob dydd?** | **N a % unigolion** | **N a % sefydliadau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **√** | 422 (62%) | 62 (50%) | **484 (60%)** |
| **X** | 212 (31%) | 49 (40%) | **261 (32%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 50 (7%) | 12 (10%) | **62 (8%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

6.2. Fel yr adlewyrchir yn Nhabl 2 uchod, roedd canran uwch o unigolion o blaid ein cynnig i gyflwyno arolygiadau heb rybudd, o'i gymharu â sefydliadau.

6.2.1. Rhoddodd rhwng chwarter a hanner yr ymatebwyr i arolwg yr ymgynghoriad sylwadau pellach wrth ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad. Trafodwyd materion tebyg i'r rhai isod yn y cyfarfodydd a digwyddiadau rhanddeiliaid.

[1] Sylwer ein bod, gydol yr adroddiad, wedi cyfeirio ar gyfansymiau cytuno/anghytuno, cefnogi/gwrthwynebu, eglur/ddim yn eglur o ganlyniadau arolwg YouGov. Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, bod y rhai oedd yn 'tueddu i gytuno' a'r rhai oedd yn 'Cytuno'n gryf' yn cael eu cyfeirio atynt fel rhai oedd yn cytuno. Gweler hefyd 4.3.5. uchod, sy'n egluro bod canrannau'n cael eu cronni ac y gallai rhai ffigurau sydd wedi eu cyfuno bod yn wahanol.

6.2.2. Yn unol â'r gefnogaeth a adlewyrchir yn Nhabl 2 uchod, roedd llawer o ymatebwyr o blaid symud tuag at ymgynghoriadau heb rybudd. Roedden nhw'n credu y dylai fferyllfeydd fod yn barod i gael eu harolygu ar unrhyw adeg, yn hytrach na pharatoi o flaen llaw ar gyfer arolygiad. Dywedodd llawer y byddai ymweld â fferyllfeydd heb rybudd yn galluogi arolygwyr y CFfC i weld sut mae fferylliaeth yn gweithredu o ddydd i ddydd, gan osgoi felly unrhyw gyfle i ffugio neu guddio pethau. Roedd llawer o ymatebwyr yn nodi bod tuedd i gyrraedd safonau pan fo arolygiad ar fin cael ei gynnal (e.e. tacluso, cyflogi rhagor o staff, cwblhau tasgau oedd heb eu gorffen) ond bod safonau yn disgyn wedi hynny.

6.2.3. Roedd llawer iawn o'r ymatebwyr o'r farn y dylai fferyllfeydd cofrestredig ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf drwy'r amser ac na ddylai fod 'esgusodion' dros berfformio'n wael. O'u safbwynt nhw, dylai fferyllfeydd fod yn cyrraedd y safonau bob dydd o'r flwyddyn a meddu ar gynlluniau wrth gefn ar gyfer adegau pan allai pethau fynd o chwith – absenoldeb staff, ymhlith eraill.

6.2.4. Roedd llawer hefyd o'r farn y byddai'r cyhoedd yn teimlo'n fwy hyderus pe bai arolygiadau'n adlewyrchu profiad cleifion yn defnyddio'r fferyllfa o ddydd i ddydd, ac y byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd.

6.2.5. Roedd nifer o ymatebwyr, gweithwyr fferyllol proffesiynol yn bennaf, o blaid arolygiadau heb rybudd am fod ganddynt botensial i ddarganfod arfer wael. Roedden nhw'n meddwl y byddai arolygiadau o'r fath yn rhoi mwy o reswm i berchnogion a goruchwylwyr fferyllol gyrraedd y safonau a'u gwneud yn fwy atebol dros ddiogelwch gwasanaethau fferyllol. Byddai hyn, yn ei dro, o fudd i'r tîm fferyllol, ac i'r cyhoedd yn y pen draw. Yn ogystal, roedd ambell ymatebydd o'r farn y byddai arolygiadau heb rybudd yn lleihau'r pwysau roedd staff yn ei deimlo pan oedden nhw'n cyson ymwybodol fod arolygiad ar ddigwydd.

6.2.6. Roedd llawer o ymatebwyr, fodd bynnag, yn anghytuno gydag arolygiadau heb rybudd. Roedden nhw'n eu hystyried yn annheg â fferyllwyr ac yn rhoi'r argraff nad oedd ymddiriedaeth ynddynt eu bod yn gwneud eu gwaith yn iawn.

6.2.7. Dywedodd ymatebwyr yn aml y byddai arolygiadau heb rybudd yn amharu ar waith staff ac yn rhoi pwysau mawr arnyn nhw ac yn ychwanegu at y baich sydd eisoes ar weithwyr fferyllol fferyllfeydd cymunedol. Dadl gyson oedd y gallai fod argyfwng neu enghraifft o berfformiad gwael cwbl anarferol ar ddiwrnod penodol yr arolygiad, ac na fyddai hyn yn adlewyrchu gwir natur y fferyllfa.

6.2.8. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai arolygiadau heb rybudd yn golygu nad oedd fferyllfeydd yn barod ar gyfer arolygiadau ac na fydden nhw'n gwybod beth i'w ddisgwyl. Dywedon nhw nad oedd aelodau o'r tîm fferyllol yn gyfarwydd â'r derminoleg roedd arolygwyr yn ei defnyddio ac yn tueddu i ddefnyddio'r cyfnod rhybudd i baratoi ar gyfer agweddau ymarferol arolygiad, ac i baratoi'n feddyliol ac yn seicolegol. Soniwyd am baratoi hefyd o ran y perchennog/goruchwyliwr, a fyddai o bosibl am baratoi'r ddogfennaeth angenrheidiol a chwestiynau neu bynciau i'w trafod gyda'r arolygydd.

6.2.9. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y byddai gofal a diogelwch cleifion yn dioddef ar ddiwrnod yr arolygiad gan fod y staff yn brysur gyda'r arolygiad ei hun. Nododd eraill na fyddai'r newidiadau o fudd i gleifion yn yr hir dymor, gan y byddai'r tîm fferyllol yn canolbwyntio ar y syniad o arolygiad drwy'r amser yn hytrach na darparu gofal â phobl yn ganolog iddo. Roedd rhai hefyd yn amheus y byddai arolygiadau heb rybudd yn atal arfer wael, gan y byddai'r rhai oedd yn torri'r rheolau yn gwneud hynny beth bynnag fo'r amgylchiadau.

6.2.10. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn anghytuno gyda'r dull am ei fod yn anghyson gyda dulliau rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys y Care Quality Commission (CQC), sydd yn rhoi rhybudd am arolygiad i leoliad pan fo arolygiad yn debygol o amharu neu effeithio ar ddiogelwch – e.e. meddygfeydd Meddygon Teulu. Roedd

eraill am weld rhagor o dystiolaeth y byddai arolygiadau heb rybudd yn codi safonau er mwyn rhoi mwy o sylwedd i gynnig y CFfC yn hyn o beth.

6.2.11. Roedd ambell un hefyd yn ystyried arolygiadau heb rybudd yn gam yn ôl, gan mai dyna oedd y drefn yn ystod cyfnod rhagflaenydd y CFfC. Roedden nhw'n poeni y byddai fferyllfeydd yn canolbwyntio gormod ar gydymffurfiaeth reoleiddiol ar draul gwelliant ac arloesedd, sydd wedi bod yn ffocws i arolygiadau'r CFfC hyd yn hyn.

6.2.12. Roedd grŵp o ymatebwyr o'r farn bod arolygiadau'n rhai heb rybudd yn barod i bob pwrpas, gan nad yw'r cyfnod pedair i chwe wythnos fawr o rybudd o ran gwybod pryd yn union y byddai'r arolygiad.

6.2.13. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo na ddylai unrhyw un o'r arolygiadau arferol fod heb rybudd, ond yn cefnogi arolygiadau heb rybudd mewn arolygiadau wedi eu seilio ar wybodaeth neu pan fo arolygwyr yn ymateb i bryderon penodol. Roedd eraill yn teimlo y dylai fod cyfuniad o arolygiadau heb rybudd ac arolygiadau gyda rhybudd er mwyn cyflawni'r amcan deuol o roi sicrwydd i'r cyhoedd ac annog gwelliant. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cyflwyno cyfnodau rhybudd gwahanol (byrrach neu hirach) fel cyfaddawd rhwng arolygiadau gyda rhybudd a heb rybudd, er mwyn osgoi sefyllfa lle gallai gweithwyr gelu rhai pethau ar y funud olaf ond gan ganiatáu cyfle i baratoi'n ymarferol ac yn seicolegol.

## 6.3. Sefyllfaoedd lle nad yw arolygiadau heb rybudd yn bosibl

*Tabl 3. Barn ar sefyllfaoedd lle nad yw arolygiadau heb rybudd yn bosibl: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| Rydym wedi nodi sefyllfaoedd lle gallai fod yn amhosibl cynnal arolygiad heb rybudd. Oes sefyllfaoedd eraill y dylem eu hystyried? | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **√** | 154 (23%) | 45 (37%) | **199 (25%)** |
| **X** | 190 (28%) | 39 (32%) | **229 (28%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 340 (50%) | 39 (32%) | **379 (47%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

6.3.1. Fel y mae Tabl 3 yn ei adlewyrchu uchod, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn nad oedd sefyllfaoedd eraill lle na fyddai arolygiadau heb rybudd yn bosibl. Roedd y farn hon ychydig yn fwy cyffredin ymhlith unigolion o'i gymharu â sefydliadau.

6.3.2. Nododd rhyw chwarter o'r ymatebwyr i'r arolwg ymgynghori sylwadau pellach ar hyn. Nododd llawer o'r rhain y gallai fod yn bosibl y byddai staff allweddol yn absennol am ryw reswm ar adeg arolygiad heb rybudd (e.e. perchennog neu oruchwyliwr fferyllfa) oherwydd gwyliau, salwch, mamolaeth neu gyfnodau recriwtio. Roedden nhw o'r farn mai gwybodaeth rannol fyddai gan locwm o ran y gwasanaethau mae fferyllfa yn eu darparu a sut i ddod o hyd i ddogfennau pwysig. Awgrymodd rhai y dylid cael ymweliad pellach gyda'r fferyllydd neu berchennog/goruchwyliwr arferol, rhag ofn eu bod wedi bod yn absennol ar ddiwrnod yr arolygiad neu i gadarnhau tystiolaeth.

6.3.3. Nododd nifer o ymatebwyr y gallai fod tystiolaeth bwysig yn anodd cael gafael arni ar ddiwrnod yr arolygiad, ac y byddai hyn yn amharu arno. Dywedodd ymatebwyr y byddai'r fferyllydd arferol yn colli cyfle i ofyn cwestiynau neu i ddarparu tystiolaeth werthfawr i'r arolygydd, ac i drefnu a thynnu sylw at arferion gwaith ac arloesedd y fferyllfa.

6.3.4. Nodwyd y byddai rhai lleoliadau yn anodd iawn cael mynediad iddynt heb rybudd. Roedd y rhain yn cynnwys carcharau, fferyllfeydd ar y rhyngrwyd heb fynediad i'r cyhoedd, fferyllfeydd mewn meysydd awyr, canolfannau manwerthu neu warysdai, hybiau fferyllol ac ati.

6.3.5. Nododd ymatebwyr hefyd sefyllfaoedd eraill lle gallai arolygiadau heb rybudd fod yn amhosibl neu lle gallent effeithio'n andwyol ar ddiogelwch cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- sefyllfaoedd lle na fyddai digon o staff i ymdopi gyda gofynion ychwanegol arolygiad
- cyfnodau arbennig o brysur mewn fferyllfeydd, megis y Nadolig, Gŵyl San Steffan, Eid
- adegau pan fyddai fferyllfeydd yn cael eu hailwampio neu'n cyfri stoc
- fferyllfeydd yn cyflwyno systemau neu wasanaethau newydd, neu'n newid perchnogaeth
- argyfyngau
- tywydd garw
- epidemig/pandemig
- ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd, megis brechu
- fferyllfeydd sydd newydd agor

6.3.6. Soniwyd ambell dro bod arolygiadau heb rybudd yn faich anghymesur ar fferyllfeydd annibynnol bach o'i gymharu â chwmnïau lluosog mawr.

## 7. Dau ganlyniad arolygu cyffredinol: yr hyn a glywom

*Tabl 2 YouGov. Canlyniadau arolygiadau*

| **Wedi i arolygiad ar fferyllfa gael ei gynnal, bydd y canlyniad yn cael ei nodi fel 'safonau wedi eu cyrraedd' neu 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Pa mor eglur, neu aneglur, mae'r geiriad hwn i'w ddeall? (Dewiswch yr opsiwn perthnasol)** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Eglur iawn | 853 | 42% |
| Gweddol eglur | 715 | 35% |
| Ddim yn eglur iawn | 308 | 15% |
| Ddim yn eglur o gwbl | 81 | 4% |
| Ddim yn gwybod | 83 | 4% |

| | | |
|---|---|---|
| **Sail: Holl oedolion Prydain** | **2040** | **100%** |

7.1. Fel y gwelir yn y Tabl uchod, roedd mwyafrif mawr (77 y cant) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg YouGov yn cytuno bod y geiriad yn hawdd ei ddeall. Roedd ychydig dan 20% yn anghytuno gyda hynny.

*Tabl 4. Barn ar y cynnig ynghylch canlyniadau arolygiadau: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| **Rydym yn cynnig cael dau ganlyniad cyffredinol posibl mewn arolygiad – 'safonau wedi eu cyrraedd' a 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'.**<br>**Ydych chi o'r farn y bydd hyn yn glir i gleifion, y cyhoedd a pherchnogion fferyllfeydd a ydy fferyllfa wedi cyrraedd, neu heb gyrraedd, y safonau?** | **N a % unigolion** | **N a % sefydliadau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **√** | 403 (59%) | 64 (52%) | **467 (58%)** |
| **X** | 224 (33%) | 51 (41%) | **275 (34%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 57 (8%) | 8 (7%) | **65 (8%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

7.2. Fel y gwelir yn Nhabl 4 uchod, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r ddau ganlyniad cyffredinol a gynigir yn ei gwneud yn glir i gleifion, y cyhoedd a pherchnogion fferyllfeydd bod fferyllfa wedi cyrraedd y safonau neu heb eu cyrraedd. Roedd ychydig dros draean, fodd bynnag, yn anghytuno.

7.2.1. Darparodd tua hanner yr ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn ynghylch canlyniadau arolygiadau. Cafwyd themâu tebyg yn y cyfarfodydd a'r digwyddiadau i randdeiliaid.

7.2.2. Roedd llawer o'r farn bod y canlyniadau a gynigir yn gliriach, yn symlach ac yn llai dadleuol na'r system raddio bresennol. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod safonau, o raid, naill ai'n cael eu cyrraedd neu ddim yn cael eu cyrraedd. Roedden nhw'n teimlo y dylai pob fferyllfa gyrraedd pob safon ar bob adeg.

7.2.3. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hynny a roddodd sylwadau, fodd bynnag, eu bod yn teimlo nad oedd y ddau ganlyniad yn glir, neu eu bod yn or-syml neu'n rhy ddu a gwyn. Roedd llawer yn teimlo y byddai cleifion a'r cyhoedd, yn ogystal â'r cyfryngau, yn gweld y pennawd yn unig, ac yn ei ystyried, heb gyd-destun, fel arwydd bod fferyllfa yn 'llwyddo' neu'n 'methu'. Gallai hyn niweidio enw da fferyllfa a pheryglu'r busnes.

7.2.4. Mater a godwyd yn aml oedd bod y dull deuol yn methu ag adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng ffaeleddau bychain a ffaeleddau mawr am ei fod yn golygu y byddai fferyllfa a fethodd â chyrraedd un safon yn cael yr un canlyniad â fferyllfa a fethodd pob safon, sef 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Byddai hyn yn peri pryder i'r cyhoedd, na fyddai efallai'n gallu gwerthfawrogi'r gwahaniaeth ac ystyried fferyllfa'n un anniogel. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid ystyried natur y safon oedd heb ei chyrraedd a'r effaith bosibl

ar ddiogelwch cleifion a bod angen ffordd o wahaniaethu rhwng anghydffurfiaeth fechan ac anghydffurfiaeth sylweddol.

7.2.5. Nododd nifer o ymatebwyr bod angen gwybodaeth ychwanegol i gadarnhau'r ddau ganlyniad. Awgrymwyd rhoi rhagor o fanylion yn yr adroddiad ar y diffygion penodol a'r rheswm drostyn nhw, er mwyn i'r cyhoedd a'r comisiynwyr eu gweld.

7.2.6. Clywom hefyd nifer o sylwadau ynghylch:

- y dull deuol a'r teimlad na fyddai'n gallu ystyried arferion rhagorol ac felly gyrru gwelliant yn ei flaen
- y nifer uchel o fferyllfeydd sydd â gradd 'boddhaol' ar hyn o bryd – roedd gofid y byddai'r rhan fwyaf o fferyllfeydd, i gychwyn o leiaf, yn derbyn canlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd', a allai o bosibl effeithio ar ffydd y cyhoedd a/neu benderfyniadau comisiynu

7.2.7. Roedd gan nifer o ymatebwyr amheuon am y dull deuol, gan awgrymu system fwy graddedig yn lle. Roed nhw o'r farn nad oedd y byd fferyllol yn 'ddu a gwyn', heb raddau rhwng y ddau begwn. Roedd llawer yn ffafrio system yn unol â'r un a ddefnyddir gan CQC/OFSTED[2], sy'n fwy cyfarwydd i gleifion, y cyhoedd a chomisiynwyr, ac yn galluogi mwy o amrywiaeth yng ngraddfeydd gwasanaethau. Roedd awgrymiadau hefyd y dylid defnyddio canrannau, system goleuadau traffig, sgôr neu sêr, ac am gategori canolig yn adlewyrchu 'gweithio tuag at gyrraedd safonau' neu 'mwyafrif y safonau wedi eu cyrraedd'.

7.2.8. Wrth roi sylwadau ar y geiriad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd', roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r symudiad oddi wrth y radd 'boddhaol' bresennol, oedd yn cael ei hystyried yn negyddol neu'n amwys. Roedden nhw'n fodlon bod geiriad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' yn ei gwneud yn glir bod *rhai* safonau wedi eu methu, ddim *bob un* o raid.

7.2.9. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno gyda geiriad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' a'r ffordd y byddai'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiadau arolwg. Roedden nhw'n teimlo bod y geiriad a'r groes goch fawr i'w gynrychioli yn negyddol iawn ac yn gamarweiniol, o bosibl, i'r cyhoedd.

7.2.10. Awgrymwyd amrywiadau ar y geiriad, gan gynnwys:

- 'pob safon wedi e chyrraedd' a 'heb gyrraedd pob safon'
- 'cyrraedd pob safon' a 'heb gyrraedd y safonau i gyd'
- 'angen gwella' / 'angen gwella safonau'
- 'un safon neu ragor heb eu cyrraedd'/ 'rhai safonau heb eu cyrraedd'
- 'pob safon berthnasol wedi ei chyrraedd/ heb ei chyrraedd' (rhag ofn nad yw pob safon yn berthnasol i'r fferyllfa)

## 8. Pedwar canlyniad ar lefel egwyddorion: yr hyn a glywom

*Tabl 5. Barn ar ganlyniadau ar lefel egwyddorion: Dadansoddiad o'r ymatebion*

[2] Mae'r system raddio a ddefnyddir gan y CQC ac Ofsted yn cynnwys pedair gradd, sef rhagorol, da, angen wella ac annigonol.

| Rydym yn cynnig cael pedwar canlyniad posibl ar gyfer pob un o'r egwyddorion – 'safonau i gyd heb eu cyrraedd', 'safonau wedi eu cyrraedd', 'arfer dda' ac 'arfer ragorol'. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn: | - rhoi dull mesur perfformiad i berchnogion, eu timau a'r CFfC? | | | - parhau i yrru gwelliant yn ei flaen? | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **N a % unigolion** | **N a % sefydliadau** | **Cyfan. N unig. A sef.** | **N a % unigolion** | **N a % sefydliadau** | **Cyfan. N unig. + sef.** |
| **√** | 509 (74%) | 74 (60%) | **583 (72%)** | 469 (69%) | 70 (57%) | **539 (67%)** |
| **X** | 111 (16%) | 35 (29%) | **146 (18%)** | 113 (17%) | 35 (29%) | **148 (18%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 64 (9%) | 14 (11%) | **78 (10%)** | 102 (15%) | 18 (15%) | **120 (15%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

8.1. Fel sy'n glir yn Nhabl 5 uchod, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod ein cynigion parthed hyn yn ddull o fesur perfformiad ar gyfer perchnogion, timau fferyllol a'r CFfC – roedd hyn yn wir yn achos tua thri chwarter o'r unigolion a 60 y cant o'r sefydliadau.

8.2. Roedd mwyafrif sylweddol, er llai na'r uchod, i'r awgrym y bydda'r canlyniadau hyn yn parhau i yrru gwelliant yn ei flaen - ychydig dan 70 y cant o'r unigolion a dan 60 y cant o'r sefydliadau.

8.2.1. Rhoddodd traean o ymatebwyr yr ymgynghoriad sylwadau ychwanegol ynghylch y pedwar canfyddiad ar lefel egwyddorion.

8.2.2. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r pedwar canlyniad yn dal i yrru gwelliant yn ei flaen, gyhyd â'u bod yn dryloyw ac wedi eu diffinio'n glir. Roedd hyn oherwydd eu bod yn gallu dangos i'r tîm fferyllol lle roedd angen gwella, ond hefyd yn cydnabod a dathlu llwyddiant. Nododd ymatebwyr hefyd fod gradd 'da' neu 'rhagorol' yn rhywbeth cadarnhaol, oedd yn rhoi rhywbeth i fferyllfeydd anelu ato, hyd yn oed pe bai gradd o'r fath yn amhosibl i rai.

8.2.3. Rhoddwyd sylwadau gwahanol hefyd, yn cynnwys:

- roedd cael pedwar canlyniad yn ddiangen neu'n rhy gymhleth a dylid defnyddio 'cyrraedd'/'heb eu cyrraedd' ar gyfer yr egwyddorion unigol hefyd
- efallai y byddai defnyddio systemau gwahanol ar gyfer yr egwyddorion a'r canlyniadau cyffredinol yn peri dryswch i gleifion a'r cyhoedd
- roedd gallu'r pedwar canlyniad i yrru gwelliant yn ei flaen yn dibynnu arnyn nhw'n cyfateb â'r canlyniadau cyffredinol

- roedd yn anodd gwahaniaethu rhwng 'da' a 'rhagorol' a byddai ychwanegu un canlyniad i'r ddau ganlyniad cyffredinol (e.e. 'mynd ymhellach na'r safonau') yn ddigonol
- nid oedd ysgogiad i wella os oedd 'da' neu 'ardderchog' yn amhosibl eu cyrraedd (roedd y gofid hwn ar sail profiad ymatebwyr o'r system raddio bresennol)
- roedd diffyg cydbwysedd i'r raddfa bedwar pwynt, gyda thri chanfyddiad cadarnhaol ac un negyddol ( roedd graddfa fwy cytbwys – dau gadarnhaol a dau negyddol – yn cael ei hystyried yn fwy addas)

## 9. Un safon heb ei chyrraedd: yr hyn a glywom

*Tabl 3 YouGov. Un safon heb ei chyrraedd*

| I'ch atgoffa, wedi i fferyllfa gael e harolygu, nodir y canlyniad fel 'safonau wedi eu cyrraedd' neu 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Ar hyn o bryd, rhaid i fferyllfeydd gyrraedd cyfanswm o 26 o safonau. Mae'r CFfC yn cynnig bod yn rhaid i fferyllfa gyrraedd pob safon ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig i gael canlyniad 'safonau wedi eu cyrraedd' cyffredinol. Os oes un safon mae fferyllfa heb ei chyrraedd, byddai hyn yn arwain at ganlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' cyffredinol.<br>**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol?**<br>**Dylai peidio â chyrraedd un safon arwain at ganlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' cyffredinol.** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 306 | 15% |
| Tueddu i gytuno | 652 | 32% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 408 | 20% |
| Tueddu i anghytuno | 430 | 21% |
| Anghytuno'n gryf | 93 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 151 | 7% |
| **Sail: Holl oedolion Prydain** | **2040** | **100%** |

9.1. Roedd ychydig dan hanner (47 y cant) o'r cyhoedd a ymatebodd i arolwg YouGov yn cytuno y dylai peidio â chyrraedd un safon arwain at ganlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Roedd ychydig dros chwarter (26 y cant) o'r ymatebwyr i'r arolwg yn anghytuno gyda'r cynnig fodd bynnag.

*Tabl 6. Barn ar un safon heb ei chyrraedd: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| Ydych chi'n credu y dylai methu â chyrraedd un safon olygu bod fferyllfa yn derbyn canlyniad cyffredinol 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'? | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **√** | 209 (31%) | 33 (27%) | **242 (30%)** |
| **X** | 405 (59%) | 77 (63%) | **482 (60%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 70 (10%) | 13 (11%) | **83 (10%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

9.2. Mae Tabl 6 uchod yn dangos bod mwyafrif clir, tua 60 y cant (o blith unigolion a sefydliadau) yn gwrthwynebu'r cynnig y dylai peidio â chyrraedd un safon arwain at ganlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Roedd llai na thraean o blaid y cynnig hwn.

9.2.1. Nododd dros hanner yr ymatebwyr i arolwg yr ymgynghoriad sylwadau pellach ynghylch y cwestiwn hwn. Fel yr adlewyrchir ym mhwynt 7.2.4 uchod, roedd llawer yn teimlo ei bod yn annheg defnyddio'r un dull ar gyfer y sawl oedd yn methu un safon â'r rhai oedd yn methu'r rhan fwyaf o'r safonau. Roedd llawer yn teimlo y dylai ddibynnu ar natur y safon na chafodd ei chyrraedd a'i heffaith bosibl ar ddiogelwch cleifion. Roedd nifer o awgrymiadau hefyd ynghylch gwahaniaethu rhwng diffygion bach a diffygion mawr, yn enwedig o gofio bod modd gwella rhai diffygion yn hawdd.

9.2.2. Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylai fferyllfa gael cyfle i wella o fewn cyfnod amser byr cyn derbyn canlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Nodwyd eglurhad yn aml gyda'r sylw hwn, yn nod mai dim ond pan fo un safon heb ei chyrraedd y dylid defnyddio hyn, neu mewn achosion o fethiant bychan i gydymffurfio.

9.2.3. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r trothwy ar gyfer canlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' fod yn uwch – h.y. y dylid methu mwy nag un safon cyn cael canlyniad o'r fath. Cafwyd sawl awgrym hefyd y dylid ychwanegu categori canolradd 'safonau wedi eu cyrraedd yn rhannol' neu debyg.

9.2.4. Roedd llawer o ymatebwyr, fodd bynnag, yn teimlo mai'r peth iawn i'w wneud oedd rhoi canlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' pan fo un safon wedi ei methu. Roedden nhw'n teimlo bod safonau yno i'w cyrraedd, ac y dylai pob fferyllfa gyrraedd bob safon bob amser. Roedd hyn er mwyn darparu gofal cleifion diogel ac effeithiol o safon uchel. Roedd ymatebwyr yn aml yn ystyried y cynnig yn ddatblygiad naturiol o'r system raddio ddeuol, lle roedd safonau, o'u natur, yn cael eu cyrraedd neu beidio.

9.2.5. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r dull hwn yn rhoi rhagor o sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd a chynyddu ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

## 10. Cyhoeddi adroddiadau arolygu: yr hyn a glywom

*Tabl 4 YouGov. Cyhoeddi adroddiadau arolygu*

| I ba raddau, os o gwbl, y byddech yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynigion canlynol?<br>Cyhoeddi adroddiadau arolygu fferyllfeydd ar wefan y gall y cyhoedd gael mynediad ati | N | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 702 | 34% |
| Tueddu i gytuno | 859 | 42% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 299 | 15% |
| Tueddu i anghytuno | 69 | 3% |
| Anghytuno'n gryf | 18 | 1% |
| Ddim yn gwybod | 93 | 5% |
| **Sail: Holl oedolion Prydain** | **2040** | **100%** |

10.1. Fel sy'n glir o'r Tabl uchod, roedd cefnogaeth fawr iawn i'r cynnig hwn o du'r cyhoedd a ymatebodd arolwg YouGov. Roedd dros dri chwarter (77 y cant) o blaid cyhoeddi a dim ond pedwar y cant oedd yn gwrthwynebu.

*Tabl 7. Barn ar gyhoeddi adroddiadau arolygu: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| Ydych chi'n credu y dylem gyhoeddi adroddiadau arolygu? | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **√** | 440 (64%) | 81 (66%) | **521 (65%)** |
| **x** | 158 (23%) | 34 (28%) | **192 (24%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 86 (13%) | 8 (7%) | **94 (12%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

10.2. Fel yr adlewyrchir yn Nhabl 7 uchod, roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gyhoeddi adroddiadau arolygu. Roedd tua chwarter o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r symudiad tuag at gyhoeddi adroddiadau.

*Tabl 8. Barn ar gyhoeddi adroddiadau arolygu: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| Ydych chi'n credu y bydd cyhoeddi adroddiadau arolygu yn: | - rhoi mwy o dryloywder ynghylch canlyniad arolygiad? | - rhoi sicrwydd clir i ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol bod fferyllfa wedi cyrraedd y safonau? | - galluogi'r sector fferylliaeth cyfan i ddefnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiadau i wella? |
|---|---|---|---|

| | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfan. N unig. + sefyd. | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfan. N unig. + sefyd. | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfan. N unig. + sefyd. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| √ | 471 (69%) | 80 (65%) | **551 (68%)** | 450 (66%) | 76 (62%) | **526 (65%)** | 446 (65%) | 63 (51%) | **509 (63%)** |
| X | 147 (22%) | 32 (26%) | **179 (22%)** | 156 (23%) | 29 (24%) | **185 (23%)** | 149 (22%) | 32 (26%) | **181 (22%)** |
| Ddim yn gwybod | 66 (10%) | 11 (9%) | **77 (10%)** | 78 (11%) | 18 (15%) | **96 (12%)** | 89 (13%) | 28 (23%) | **117 (15%)** |
| Cyfan. N o ymatebwyr | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

10.3. Fel y gwelir yn glir yn Nhabl 8 uchod, roedd mwyafrif yr unigolion a'r sefydliadau'n credu y byddai cyhoeddi adroddiadau arolygu yn darparu tryloywder a sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol. Ar gyfartaledd, roedd tua dwy ran o dair yn teimlo hyn, a thua un o bob pump i un o bob pedwar yn anghytuno.

10.4. Roedd y farn y byddai cyhoeddi yn galluogi'r sector fferyllol i ddefnyddio'r wybodaeth mewn adroddiadau i wella yn cael ei chefnogi gan fwyafrif ychydig yn llai. Roedd hyn oherwydd bod llai o gefnogaeth ymhlith sefydliadau a ymatebodd, gydag ychydig dros hanner yn cytuno ac ychydig dros chwarter yn anghytuno.

10.4.1. Rhoddodd rhwng chwarter a hanner yr ymatebwyr sylwadau pellach ar y cwestiwn ynghylch cyhoeddi adroddiadau arolygu. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hyn yn adlewyrchu agwedd gadarnhaol yr ymatebwyr. Roedd cefnogaeth eang i'r teimlad bod cyhoeddi adroddiadau arolygu yn beth cywir i'w wneud, gan y byddai hyn yn darparu tryloywder, yn sicrhau atebolrwydd a rhoi cyfle i'r cyhoedd wneud penderfyniadau call.

10.4.2. Roedd llawer yn croesawu cysondeb y dull hwn gyda rheoleiddwyr eraill, megis y Care Quality Commission.

10.4.3. Roedd llawer hefyd yn credu y byddai cyhoeddi yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd:

- bod arfer wael yn cael ei datrys
- y gallant ymddiried yn eu fferyllfa
- bod gwasanaethau fferyllol yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu, fel sy'n digwydd gyda gwasanaethau eraill
- bod safonau fferyllfeydd cofrestredig yn cael eu cymhwyso drwy'r amser

10.4.4. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai adroddiadau arolygu yn ffynhonnell wybodaeth ar gyfer fferyllfeydd o ran sut i gyrraedd y safonau. Roedd disgwyl y byddai hyn yn eu galluogi i'w cymharu eu hunain ag eraill a rhannu arfer dda.

10.4.5. Roedd teimlad hefyd y byddai cyhoeddi yn gyrru gwelliant yn ei flaen ac yn atal arfer wael, gan y byddai fferyllfeydd yn ymdrechu i gyrraedd y safonau ac i wella o wybod bod yr adroddiadau'n cael eu cyhoeddi.

Nododd rhai ymatebwyr y byddai cyhoeddi yn gallu dod  â balchder a gwella morâl ymhlith staff, gan y byddai fferyllfeydd yn falch o gael cyhoeddi eu canlyniadau arolygu da.

10.4.6. Roedd nifer o ymatebwyr, fodd bynnag, o'r farn y gallai cyhoeddi niweidio enw da fferyllfeydd a thanseilio ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn fferyllol. Roedden nhw'n credu y gallai'r cyhoedd beidio â defnyddio rhai fferyllfeydd ac felly beryglu busnes rhai fferyllfeydd. Yn ôl rhai, yn ogystal â bwrw hyder fferyllfeydd penodol, gallai effeithio'n andwyol ar fferyllfeydd eraill yn y gadwyn, drwy gysylltiad, a'r berthynas gyda chomisiynwyr neu hyd yn oed y proffesiwn cyfan.

10.4.7. Nododd rhai ymatebwyr bod posibilrwydd y gallai'r wybodaeth mewn adroddiadau arolygu gael ei chamddefnyddio, ac roedden nhw'n annog y CFfC i fonitro hyn a sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n briodol. Er enghraifft, soniwyd am y canlynol:

- y cyfryngau'n gwneud môr a mynydd o ganlyniad arolygu
- y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol . e.e. yn torri ar y Rheoliadau Gwarchod Data (GDPR)
- risg hysbysebu ffug – e.e. gan gystadleuwyr
- risg o ddefnyddio'r wybodaeth i niweidio enw da fferyllfa benodol – e.e. gan bobl sy'n dymuno mynd â fferyllfa i gyfraith
- risg bod grwpiau penodol yn cam-drin y wybodaeth – e.e. camddefnyddwyr sylweddau fyddai am wybod am wendidau mewn dulliau storio cyffuriau
- risg o ddefnyddio'r wybodaeth i greu tablau cynghrair i gymharu fferyllfeydd, nad ydyn nhw'n addas eu cymharu

10.4.8. Sylw a gododd yn gyson o ran cyhoeddi adroddiadau arolygu oedd na fyddai gan y cyhoedd ddiddordeb mewn adroddiadau o'r fath ac na fyddai'r canfyddiadau'n effeithio arnyn nhw. Roedd hyn oherwydd eu bod yn dueddol o ddewis fferyllfeydd ar sail cyfleustra, argymhellion gan eraill, profiad personol neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir. Dywedwyd y byddai gan gleifion fwy o ddiddordeb yng nghanlyniadau arolygon boddhad cleifion, yn hytrach nag adroddiadau arolygu a graddfeydd.

10.4.9. Roedd y pwyntiau hyn yn cyd-fynd â'r hyn y nododd pobl fel y prif ffactorau o ran dewis fferyllfa wrth ymateb i arolwg YouGov. Nododd mwyafrif ymatebwyr yr arolwg (79 y cant) gyfleustra fel y prif ffactor. Roedd profiad blaenorol, ystod y gwasanaethau ac argymhellion gan eraill hefyd yn ffactorau mwy dylanwadol na chanlyniad arolygiad diwethaf fferyllfa[3].

10.4.10. Datgelodd ein grwpiau ffocws gyda chleifion a'r cyhoedd deimladau tebyg ymhlith cyfranogwyr, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn credu y byddai gan brofiad blaenorol ac argymhellion fwy o ddylanwad arnyn nhw o'i gymharu ag adroddiadau. Roedd teimlad bod cyhoeddi adroddiadau'n beth da fel y cyfryw – a bod y wybodaeth yn 'dda gwybod amdani' yn hytrach nag yn 'angenrheidiol'. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn teimlo mai cleifion oedd yn anhapus gyda'u gwasanaethau fyddai mwyaf tebygol o fynd i chwilio am yr adroddiadau a'u darllen.

10.4.11. Roedd rhai o'r rhai a ymatebodd i arolwg yr ymgynghoriad yn teimlo na fyddai'r cyhoedd yn gallu dehongli'r canlyniadau, gan nad oedd ganddynt ddealltwriaeth ddofn o fferylliaeth. Gallent, felly,

[3] Gweler Tabl 7 YouGov yn Atodiad 3.

gamddehongli adroddiad negyddol, neu gael eu dylanwadu gormod gan y canlyniad ‘y safonau i gyd heb eu cyrraedd’, a allai eu gwthio i ffwrdd o’u fferyllfa ddewisol.

10.4.12. Cafwyd awgrymiadau y dylid cyhoeddi adroddiadau arolygu mewn mannau eraill yn ogystal â gwefan y CFfC, lle byddai cleifion yn chwilio amdanynt ac yn disgwyl eu gweld - e.e. NHS Choices neu wefan y fferyllfa neu yn y fferyllfa. Roedd hyn yn adlewyrchu’r farn a gafwyd mewn grwpiau ffocws.

10.4.13. Roedd grŵp o ymatebwyr o’r farn na ddylid cyhoeddi adroddiadau arolygu o gwbl, ond eu bod ar gael ar gais, neu ddim ond ar gael ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a chomisiynwyr, ond nid y cyhoedd.

10.4.14. Barn arall oedd y dylid cyhoeddi adroddiadau arolygu, ond ar ffurf ddienw. Byddai peidio â nodi fferyllfeydd wrth enw yn galluogi dysgu ond yn osgoi ‘codi cywilydd’ ar fferyllfeydd unigol.

### 10.5. Sylwadau ar dempledi posibl ar gyfer adroddiadau

10.5.1. Yn rhan o arolwg yr ymgynghoriad, gofynnom gwestiwn am dempledi a awgrymwyd ar gyfer adroddiadau. Dim ond rhyw un o bob wyth ymatebydd roddodd sylwadau ar hyn.

10.5.2. Roedd y mwyafrif o’r rhain yn credu bod y templedi’n glir ac yn ddefnyddiol. Roedden nhw o’r farn bod y canlyniadau cyffredinol a pherfformiad yn erbyn safonau unigol yn hawdd eu cyrchu. Roedd teimlad bod cael adroddiadau ar gael yn llawn i’r rhai oedd yn dymuno eu gweld yn synhwyrol ac yn dryloyw. Roedd rhai’n teimlo bod yr adroddiad manwl yn rhy amleiriog a chymhleth ac mai dim ond i fferyllfeydd y byddai’n ddefnyddiol a’r adroddiad cryno’n fwy na digon ar gyfer cleifion. Cafwyd adborth tebyg yn ein grwpiau ffocws cleifion.

10.5.3. Roedd rhai’n anghytuno gyda’r geiriad a’r defnydd o groes goch ar gyfer canlyniad ‘y safonau i gyd heb eu cyrraedd’. Roedd ymatebwyr yn ystyried y byddai cleifion a’r cyhoedd yn dehongli hyn fel arwydd o fferyllfa wael, er mai materion bach y gellid eu gwella’n hawdd allai fod yn sail i’r canlyniad. Roedd cleifion a’r cyhoedd a gyfrannodd at ein grwpiau ffocws, fodd bynnag, yn gwerthfawrogi symlrwydd y ticiau a’r croesau a ddefnyddiwyd yn y templedi.

## 11. Cyhoeddi cynlluniau gwella: yr hyn a glywom

*Tabl 5 YouGov. Cyhoeddi cynlluniau gwella*

| **I ba raddau, os o gwbl, y byddech yn cytuno neu’n anghytuno gyda’r cynigion canlynol?**<br>**Cyhoeddi cynlluniau gwella fferyllfeydd nad ydynt wedi cyrraedd y safonau i gyd y gall y cyhoedd eu cyrchu** | **N** | **% o’r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | 614 | 30% |
| Tueddu i gytuno | 866 | 42% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 368 | 18% |
| Tueddu i anghytuno | 64 | 3% |
| Anghytuno’n gryf | 25 | 1% |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 104 | 5% |
| **Sail: Holl oedolion Prydain** | **2040** | **100%** |

11.1. Fel y mae'r Tabl uchod yn ei ddangos, roedd mwyafrif o 73 y cant o'r ymatebwyr i arolwg YouGov yn cefnogi cyhoeddi cynlluniau gwella. Roedd lleiafrif bach, pedwar y cant, yn gwrthwynebu'r syniad.

*Tabl 9. Barn ar gyhoeddi cynlluniau gwella: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| Ydych chi'n credu y dylem gyhoeddi cynlluniau gweithredu? | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **√** | 316 (46%) | 46 (37%) | **362 (45%)** |
| **X** | 279 (41%) | 61 (50%) | **340 (42%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 89 (13%) | 16 (13%) | **105 (13%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

11.2. Fel y gwelir yn Nhabl 9 uchod, roedd y cynnig i gyhoeddi cynlluniau gwella yn rhannu'r ymatebwyr i arolwg yr ymgynghoriad. Roedd canran uchel o unigolion yn cefnogi'r cynnig, o'i gymharu â sefydliadau. Roedd mwyafrif y sefydliadau (hanner ohonynt) yn gwrthwynebu cyhoeddi cynlluniau gwella.

11.3. Eglurodd dros draean o'r sawl a ymatebodd i'n hymgynghoriad eu barn ar gyhoeddi cynlluniau gwella mewn sylwadau ychwanegol. Roedd mwyafrif y rhain yn gwrthwynebu'r cynnig. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai manylion y cynlluniau gwella fod yn fater preifat i'r fferyllfa dan sylw. Roedd rhai'n teimlo na fyddai o ddefnydd i'r cyhoedd. Roedd llawer yn cytuno, fodd bynnag, y dylai'r wybodaeth mewn cynlluniau gwella fod ar gael i bawb ei gweld.

11.3.1. Nododd rhai y gallai cynlluniau gwella gynnwys gwybodaeth oedd yn fasnachol sensitif ac y gallai hyn gael ei gamddefnyddio gan gystadleuwyr. Roedd hyn yn atseinio pryderon a fynegwyd ynghylch cyhoeddi – gweler 10.4.7 uchod.

11.4. Roedd nifer o ymatebwyr, fodd bynnag, yn cefnogi cyhoeddi cynlluniau gweithredu, gan eu bod o'r farn y byddai hyn yn hybu tryloywder a helpu dealltwriaeth. Roedd hefyd yn cael ei ystyried fel ffordd o yrru gwelliant yn ei flaen, drwy arddangos yr union bethau y dylai fferyllfeydd ganolbwyntio arnyn nhw.

11.4.1. Roedd gan ein grwpiau ffocws ddiddordeb cyffredinol yn amserlenni cwblhau cynlluniau gwella a meysydd i'w gwella, roedd rhai â diddordeb gallu gweld cynlluniau gwella yn fanwl yn eu cyfanrwydd.

11.4.2. Hefyd, mae cael cynllun gwella yn ei le yn ymddangos fel pe bai'n effeithio ar agwedd aelodau o'r cyhoedd tuag at ymweld â fferyllfeydd sydd wedi derbyn canlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Fel y mae Tablau 8 a 9 YouGov yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn yn ei adlewyrchu, cododd y ganran ymatebwyr YouGov a ddywedodd eu bod yn debygol o ymweld â'r fferyllfa eto yn sylweddol o 45 y cant i 68 y cant o wybod bod fferyllfa yn cwblhau cynllun gwella i fynd i'r afael â'i ffaeleddau.

## 12. Arddangos canlyniadau arolygiadau: yr hyn a glywom

*Tabl 6 YouGov. Arddangos canlyniadau arolygiadau mewn fferyllfeydd*

| **I ba raddau, os o gwbl, y byddech yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynigion canlynol?**<br>**Gofyn i berchnogion fferyllfeydd arddangos canlyniadau arolygiadau yn eu fferyllfeydd** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 733 | 36% |
| Tueddu i gytuno | 901 | 44% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 260 | 13% |
| Tueddu i anghytuno | 55 | 3% |
| Anghytuno'n gryf | 19 | 1% |
| Ddim yn gwybod | 72 | 4% |
| **Sail: Holl oedolion Prydain** | **2040** | **100%** |

12.1. Fel y gwelir yn y Tabl uchod, roedd mwyafrif mawr o'r rhai a ymatebodd i arolwg YouGov (80 y cant) o blaid arddangos. Dim ond pedwar y cant oedd yn gwrthwynebu.

*Tabl 10. Barn ar arddangos canlyniadau arolygiadau: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| **Ydych chi'n credu y dylai fod disgwyl ar berchnogion fferyllfeydd i arddangos canlyniad eu harolygiad yn y fferyllfa?** | **N a % unigolion** | **N a % sefydliadau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **√** | 301 (44%) | 44 (36%) | **345 (43%)** |
| **X** | 288 (42%) | 60 (49%) | **348 (43%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 95 (14%) | 19 (15%) | **114 (14%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

12.2. Fel y mae Tabl 10 yn ei ddangos uchod, roedd rhaniad rhwng ymatebwyr o ran eu barn ar arddangos canlyniadau arolygiadau gan berchnogion fferyllfeydd.

12.3. Roedd mwyafrif o'r sefydliadau (bron hanner ohonynt) yn gwrthwynebu'r cynnig, a 36 y cant yn ei gefnogi. Roedd hyn yn cymharu gyda mwyafrif bychan o unigolion o blaid arddangos (44 y cant o blaid a 42 y cant yn erbyn).

12.3.1. Rhoddodd dros draean o'r ymatebwyr i arolwg yr ymgynghoriad sylwadau i gefnogi eu barn ar arddangos. Cafwyd sylwadau tebyg yn y trafodaethau mewn cyfarfodydd a digwyddiadau rhanddeiliaid.

12.3.2. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn yn teimlo ei bod yn gywir arddangos canlyniadau arolygiadau er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw. Roedd llawer yn croesawu cysondeb y dull hwn gyda rheoleiddwyr eraill, megis y CQC, OFSTED a'r Asiantaeth Safonau Bwyd[4]. Roedden nhw'n teimlo bod gan y cyhoedd hawl i wybod sut roedd eu fferyllfa'n perfformio er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau call. Nododd sawl ymatebydd y byddai arddangos canlyniadau arolygiadau yn sicrhau hygyrchedd, gan y byddai rhai'n methu cael mynediad i'r we neu'n methu fforddio gwneud hynny.

12.3.3. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y byddai arddangos canlyniadau yn arwain at fwy o ddiogelwch i gleifion a chysondeb profiad, gan y byddai'n annog perchnogion i ddatrys pethau pan fo pethau'n mynd o chwith. Hefyd, petaent yn perfformio'n dda, byddai fferyllfeydd yn falch o allu arddangos eu canlyniadau.

12.3.4. Roedd nifer uchel o ymatebwyr, fodd bynnag, yn teimlo na ddylai fod yn orfodol arddangos canlyniadau, ac y dylai fod ar ddisgresiwn perchnogion fferyllfeydd, o leiaf tan i'r system newydd ymwreiddio a chael ei chymhwyso gyda chysondeb. Roedd dadl hefyd nad oedd angen arddangos os oedd y wybodaeth ar gael yn hawdd yn rhywle arall, neu y gellid ei darparu ar gais.

12.3.5. Roedd llawer o'r farn na fyddai perchnogion fferyllfeydd yn debygol o arddangos canlyniad negyddol ac na ddylid disgwyl iddynt wneud hynny. Soniwyd eto y byddai canlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' yn dangos fferyllfa mewn golau gwael ac y gallai niweidio busnes ac enw da'r fferyllfa.

12.3.6. Nododd rhai ymatebwyr bod canlyniadau arolygiadau ond yn ddilys ar adeg eu cyflwyno ac mai adlewyrchu pwynt byr mewn amser yr oedden nhw. Roedd teimlad y gallent, felly, fod yn gamarweiniol, o gofio y gallai ansawdd gwasanaethau wella neu ddirywio'n hawdd rhwng adeg arddangos y canlyniadau a'r arolygiad nesaf ar fferyllfa.

12.3.7. Soniodd rhai y byddai arddangos canlyniadau yn peri trafferth ymarferol mewn safleoedd oherwydd diffyg lle a chan gofio bod eisoes rhaid arddangos rhai pethau – e.e. canlyniadau arolygon boddhad cwsmeriaid.

12.3.8. Unwaith eto, roedd rhai ymatebwyr yn amau a fyddai'r wybodaeth hon o ddefnydd i gleifion a'r cyhoedd a soniodd rhai am berygl camddefnyddio'r wybodaeth a hysbysebu ffug gan gystadleuwyr.

12.3.9. Roedd cleifion a fu'n rhan o'n grwpiau ffocws yn teimlo y dylid arddangos canlyniadau arolygiadau mewn fferyllfeydd. Roedden nhw'n derbyn y byddai fferyllfeydd oedd yn cyrraedd y safonau i gyd yn fwy tebygol o arddangos y canlyniadau, ond roedd eraill yn teimlo y dylid gorfodi'r rhai oedd yn methu â chyrraedd y safonau i gyd i arddangos eu canlyniadau.

## 13. Y wefan a'r hyb gwybodaeth: yr hyn a glywom

*Tabl 11. Barn ar y wefan a'r hyb gwybodaeth: Dadansoddiad o'r ymatebion*

[4] Sylwer bod yn rhaid i ddarparwyr gofal, dan y gyfraith, arddangos eu graddfa CQC. Mae hyn hefyd yn wir am raddfeydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Mae arddangos y sticer hylendid bwyd yn wirfoddol yn Lloegr, sydd hefyd yn wir am raddfeydd OFSTED.

| Ydych chi'n credu y bydd y wefan ryngweithiol a'r hyb gwybodaeth yn : | - gwneud gwybodaeth yn hawdd ei chyrchu? | | | - annog rhannu gwybodaeth o fewn y sector fferylliaeth ? | | | - galluogi dysgu gan enghreifftiau o safonau na chafodd eu cyrraedd, ac o arfer dda a rhagorol ? | | | -gyrru gwelliannau fferyllol yn eu blaen ? | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyanf. N unig. + sefyd. | N a % unigolion | N a % sefyd. | Cyfan. N unig. + sefyd. | N a % unigolion | N a % sefyd. | Cyfan. N unig. + sefyd. | N a % unigolion | N a % sefyd. | Cyfan. N unig. + sefyd. |
| √ | 529 (77%) | 100 (81%) | **629 (78%)** | 483 (71%) | 88 (72%) | **571 (71%)** | 532 (78%) | 92 (75%) | **624 (77%)** | 473 (69%) | 82 (67%) | **555 (69%)** |
| X | 59 (9%) | 3 (2%) | **62 (8%)** | 83 (12%) | 7 (6%) | **90 (11%)** | 73 (11%) | 4 (3%) | **77 (10%)** | 86 (13%) | 7 (6%) | **93 (12%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 96 (14%) | 20 (16%) | **116 (14%)** | 118 (17%) | 28 (23%) | **146 (18%)** | 79 (12%) | 27 (22%) | **106 (13%)** | 125 (18%) | 34 (28%) | **159 (20%)** |
| **Cyfan. N o ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

13.1. Roedd mwyafrif helaeth yr unigolion a'r sefydliadu – ychydig dan 80 y cant – yn credu y byddai'r wefan ryngweithiol a'r hyb gwybodaeth yn gwneud gwybodaeth yn hawdd ei chyrchu. Roedd canran uchel debyg yn teimlo y byddai'r rhain yn galluogi dysgu oddi wrth safonau nad oedd wedi eu cyrraedd, neu wedi eu cyrraedd, ac arferion da a rhagorol.

13.2. Roedd ychydig dros 70 y cant o unigolion a sefydliadau yn teimlo y byddai'r wefan a'r hyb gwybodaeth yn annog rhannu gwybodaeth ymhlith y sector. Roedd ychydig dan 70 y cant yn teimlo y byddai'r cynigion yn gyrru gwelliant mewn fferylliaeth.

13.3. Roedd yr ymateb cadarnhaol hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y sylwadau ychwanegol, a roddwyd gan dros chwarter yr ymatebwyr. Roedd nifer fawr ohonyn nhw'n cytuno y byddai rhannu dysgu ac arfer dda yn peri i dimau fferyllol ffocysu ar gyrraedd safonau ac y byddai hyn yn arwain at welliannau mewn fferylliaeth.

13.3.1. Roedd llawer o'r farn bod yr hyb gwybodaeth yn syniad da ar gyfer y proffesiwn, gan y gallai fynd i'r afael â'r unigedd sydd weithiau'n taro fferyllwyr. Roedd cred y byddai'n arbennig o fuddiol i fferyllfeydd annibynnol.

13.3.2. Nododd llawer o ymatebwyr y byddai llwyddiant yr hyb gwybodaeth yn dibynnu ar ba mor eang y byddai'n cael ei ddefnyddio ac at ba bwrpas. Er enghraifft, dywedwyd:

- y byddai fferyllfeydd oedd yn perfformio'n dda yn ei ddefnyddio i wella hyn yn oed yn fwy, tra byddai'r rhai nad oedd yn perfformio cystal yn annhebygol o anelu at ragoriaeth
- yn anaml y byddai rhai fferyllfeydd yn defnyddio'r adnodd a dim ond o gywreinrwydd y byddent yn gwneud hynny, yn hytrach nag awydd i ddysgu a gwella

- ni fyddai gan weithwyr fferyllol a/neu berchnogion fferyllfeydd amser i edrych ar yr hyb, ac mai dim ond pe byddai pobl yn ei ddefnyddio y byddai'n llwyddiant
- roedd yn anodd cynnig sylw ar yr hyb tan iddo gael ei greu a heb wybodaeth am ei ddiwyg a pha mor eang y byddai'n cael ei ddefnyddio

13.3.3. Nododd llawer bod angen i'r wybodaeth ar yr hyb fod yn hawdd ei chrychu os oedd am fod yn ddefnyddiol. Roedd hyn yn golygu, er enghraifft:

- bod yn glir, yn syml ac yn weledol, er mwyn i gleifion ei deall
- bod â dolenni i ffynonellau gwybodaeth eraill – e.e. NHS Choices
- caniatáu chwiliadau am arfer dda a rhagorol
- dangos sut gallai fferyllfeydd gyrraedd y safonau
- rhoi sylw i arferion da ac arloesol
- cynnwys adroddiadau dadansoddol wedi eu seilio ar dystiolaeth ar themâu a thueddiadau, yn hytrach na'r adroddiadau arolygu yn unig

13.3.4. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys: e-bost gydag uchafbwyntiau ar gyfer fferyllwyr prysur; ychwanegu fforwm trafod i'r hyb er mwyn i weithwyr fferyllol allu rhannu enghreifftiau o arfer dda; defnyddio'r hyb fel cyfrwng chwythu'r chwiban.

13.3.5. Roedd rhai sylwadau'n nodi y dylai'r adroddiadau a'r enghreifftiau yn yr hyb fod yn rhai dienw, er mwyn galluogi dysgu ond peidio â gallu adnabod pobl.

13.3.6. Nododd sawl ymatebydd ei bod yn bosibl na fyddai'r hyb yn ddefnyddiol i'r cyhoedd ac mai dim ond ar gyfer y proffesiwn y dylai fod ar gael. Noddodd ambell ymatebydd arall na fyddai pob enghraifft o arfer dda neu ragorol yn berthnasol i bob fferyllfa.

## 14. Sylwadau cyffredinol eraill

14.1. Pryder a fynegwyd yn aml, ar hyd holl gwestiynau'r ymgynghoriad, oedd y byddai'r cynigion yn ychwanegu at y straen a'r baich biwrocrataidd sydd ar fferyllwyr. Gwnaed sylwadau ar:

- y galwadau niferus sydd ar fferylliaeth o ran cyllidebau'n lleihau a phwysau corfforaethol
- prinder staff, amser a/neu adnoddau i weithredu'r cynigion
- bod ag ofn arolygiadau, wedi ei waethygu gan ofn methu
- y teimlad y byddai'r cynigion yn effeithio'n enwedig ar fferyllfeydd annibynnol bach, yn hytrach na fferyllfeydd sy'n rhan o gorfforaethau lluosog

14.2. Soniwyd yn aml hefyd drwy gydol yr ymatebion ac mewn ymateb i nifer o gwestiynau gwahanol bod angen rhagor o eglurder neu fanylder. Gofynnodd ymatebwyr am ragor o eglurder a/neu wybodaeth o ran:

- y dull arolygu newydd – h.y. pryd byddai'n dechrau; cyfrannau'r gwahanol fathau o arolygiadau (ac a allai fferyllfa gael mwy nag un arolygiad y flwyddyn); hyd yr arolygiadau; sut byddai arolygiadau'n cael eu cynnal; sut byddai'r math o arolygiad yn cael ei benderfynu a'i gyhoeddi;

rhagor o ganllawiau ynghylch yr hyn sy'n ddisgwyliedig a sut gal fferyllfeydd gyrraedd y safonau; mwy o gyfarwyddyd a chefnogaeth gan arolygwyr y CFfC yn ystod arolygiadau ac ar gyfer fferyllfeydd diffygiol; capasitt arolygu'r CFfC

- y system raddio newydd – h.y. diffiniadau gwydn, meini prawf sgorio gwrthrychol a fframwaith gwneud penderfyniadau clir
- y broses gyhoeddi a gofynion arddangos - h.y. pryd byddent yn cychwyn; pa mor aml y byddent yn cael eu huwchlwytho; pa mor hir y byddent ar gael yn gyhoeddedig; cyhoeddi ôl-syllol; ble byddai angen arddangos canlyniadau arolygiadau a pha mor hir
- proses adolygu adroddiadau a hawl apelio – h.y. rhagor o fanylion ynghylch trefniadau apelio; amser digonol i berchnogion adolygu a herio'r adroddiad a'r canlyniad cyn iddynt gael eu cyhoeddi

14.3. Thema arall ymhlith yr ymatebion oedd y cais am dystiolaeth bellach neu ragor o gysondeb. Yn benodol, roedd ymatebwyr eisiau:

- mwy o gysondeb gyda rheoleiddwyr eraill a phroffesiynau eraill sy'n cael eu rheoleiddio – wedi ei grybwyll yn aml yng nghyd-destun arolygiadau heb rybudd, graddio a chyhoeddi
- mwy o gysondeb a gwrthrychedd ym mhrosesau'r CFfC - wedi ei grybwyll yn aml yng nghyd-destun y broses arolygu a graddio, er mwyn sicrhau cysondeb a diffyg rhagfarn ymhlith arolygwyr y CFfC a sicrhau proses sicrhau ansawdd adroddiadau arolygu
- defnydd mwy effeithiol o bwerau gorfodi'r CFfC (h.y. cael sancsiynau ar gyfer fferyllfeydd anghydymffurfiol a gallu dal perchnogion i gyfrif) – wedi ei grybwyll yn aml yng nghyd-destun cwmnïau lluosog mawr, targedau wedi eu gyrru gan elw; a lefelau staffio annigonol. Aelodau o'r tîm fferyllol yn ymateb i arolwg yr ymgynghoriad oedd yn fwyaf tebygol o gyflwyno'r farn hon
- rhagor o dystiolaeth i gefnogi cynigion yr ymgynghoriad, neu drafodaethau pellach a chyfnodau treialu cyn eu rhoi ar waith
- rhagor o amser i benderfynu ar effaith ac effeithiolrwydd y dull newydd, wedi iddo gael ei roi ar waith

14.4. Dywedodd ymatebwyr yn aml hefyd y dylai fferyllfeydd gael cyfle i wella o fewn cyfnod penodol o amser wedi arolygiad, yn enwedig yng nghyd-destun arolygiadau heb rybudd a chyhoeddi/arddangos canlyniadau arolygiadau. Roedd nifer arwyddocaol o ymatebwyr, o blith unigolion a sefydliadau, o'r farn y dylai fferyllfeydd gael amser i ddatrys eu ffaeleddau cyn cyhoeddi ac y dylid diweddaru'r adroddiad a'r radd yn fuan wedi hynny, neu mai'r adeg honno y dylid cyhoeddi gyntaf.

14.5. Thema gyffredin arall yn y sylwadau oedd bod y dull presennol yn gweithio'n dda ac nad oedd angen ei newid yn llwyr, ac mai ei ddiwygio a'i fireinio fyddai'n briodol. Cafodd hyn ei grybwyll yn aml yng nghyd-destun arolygiadau heb rybudd. Roedd rhai ymatebwyr yn rhannu'r farn bod arolygiadau'n rhai heb rybudd yn barod, gan fod cyfnod o bedair i chwe wythnos pan all arolygiad gael ei gynnal.

## 15. Effaith y newidiadau: yr hyn a glywom

### 15.1. Effaith y newidiadau ar ddefnyddwyr gwasanaeth

*Tabl 12. Effaith ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol? | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Effaith gadarnhaol** | 184 (27%) | 26 (21%) | **210 (26%)** |
| **Effaith negyddol** | 54 (8%) | 13 (11%) | **67 (8%)** |
| **Effaith gadarnhaol a negyddol** | 325 (48%) | 61 (50%) | **386 (48%)** |
| **Dim effaith** | 86 (13%) | 16 (13%) | **102 (13%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 35 (5%) | 7 (6%) | **42 (5%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

15.1.1. Fel y mae Tabl 12 uchod yn ei ddangos uchod, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (48 y cant), o blith unigolion a sefydliadau yn rhagweld effaith gadarnhaol a negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol.

15.1.2. Rhoddodd tua thraean o'r ymatebwyr i arolwg yr ymgynghoriad sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif ohonynt o'r farn y byddai'r newidiadau'n dod â rhagor o ymwybyddiaeth a thryloywder, yn galluogi dewisiadau call a rhoi sicrwydd bod fferyllfeydd yn cael eu rheoleiddio a bod camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag arfer wael. Awgrymodd ymatebwyr y gallai'r cynigion gynyddu ffydd a hyder y cyhoedd mewn fferylliaeth ac roeddent yn aml yn rhagweld safonau ymarfer uwch, mwy o gysondeb profiad a gwell diogelwch i gleifion.

15.1.3. Roedd gan nifer o ymatebwyr, fodd bynnag, farn gymysg, sef y gallai adroddiad cadarnhaol gynyddu ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn, ond y gallai 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' niweidio ffydd y cyhoedd ac achosi gofid heb angen.

15.1.4. Soniwyd eto gan nifer uchel o ymatebwyr na fyddai'r cynigion yn effeithio ryw lawer ar gleifion a'r cyhoedd, gan mai cyfleuster a phrofiad personol oedd yn bennaf gyfrifol am eu dewisiadau, a bod adroddiadau cyhoeddedig yn annhebygol o newid hyn.

15.1.5. Roedd nifer o sylwadau ynghylch ymateb posibl defnyddwyr i ganlyniad negyddol. Roedd teimlad ei bod yn bosibl na fyddai pobl yn llwyr ddeall ystyr canlyniad o'r fath, neu y byddent yn poeni neu'n drysu. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddent felly yn tybio, yn anghywir, bod y fferyllfa'n anniogel, ac y byddai hynny'n dileu eu ffydd yn llwyr. Efallai y gallent hefyd wneud penderfyniadau heb reswm – er enghraifft, gallai canlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' annog pobl i beidio â defnyddio fferyllfa benodol a symud i fferyllfa wahanol, na fyddai o anghenraid yn well (neu heb ddarparu'r un ystod o wasanaethau). Yn achos cleifion heb ddewis o fferyllfeydd (e.e. pobl mewn cymunedau gwledig, carcharau ac ati) gallai achosi i bobl deimlo'n rhwystredig neu'n anhapus gyda'u fferyllfa.

15.1.6. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cynigion – yn enwedig o ran arolygiadau heb rybudd a'r canlyniadau newydd – fod yn rhwystr ar fferyllfeydd ac felly gael effaith negyddol ar ddiogelwch a gofal cleifion.

## 15.2. Effaith y newidiadau ar berchnogion fferyllfeydd

*Tabl 13. Effaith y newidiadau ar berchnogion fferyllfeydd cofrestredig: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar berchnogion fferyllfeydd cofrestredig? | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Effaith gadarnhaol** | 133 (19%) | 20 (16%) | **153 (19%)** |
| **Effaith negyddol** | 119 (17%) | 25 (20%) | **144 (18%)** |
| **Effaith gadarnhaol a negyddol** | 355 (52%) | 68 (55%) | **423 (52%)** |
| **Dim effaith** | 32 (5%) | 5 (4%) | **37 (5%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 45 (7%) | 5 (4%) | **50 (6%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

15.2.1. Fel sy'n amlwg yn Nhabl 13 uchod, roedd ymatebwyr yn rhagweld effaith gadarnhaol a negyddol ar berchnogion fferyllfeydd. Roedd dros hanner yn rhagweld mai cymysg fyddai'r effaith.

15.2.2. Rhoddodd tua thraen o'r ymatebwyr i arolwg yr ymgynghoriad sylwadau pellach ynghylch y cwestiwn hwn.

15.2.3. Roedd yn gyffredin i ymatebwyr deimlo y byddai'r effaith ar berchnogion fferyllfeydd yn dibynnu ar ganlyniad yr arolygiad a dull arwain/agwedd y perchennog ei hun. Nododd rhai y byddai'r dull arwain neu'r agwedd yn penderfynu a fyddai pobl yn ystyried y newidiadau yn gyfle neu'n fygythiad.

15.2.4. Roedd llawer yn teimlo y byddai'r dull a gynigir o ran arolygu, graddio a chyhoeddi yn helpu i yrru gwelliant, gan y byddai'n atgyfnerthu arferion da ac yn gorfodi perchnogion i weithredu pan nad oedd perfformiad cystal ag y gallai fod. Fodd bynnag, roedd rhai yn rhagweld y byddai agwedd o ganolbwyntio ar reoleiddio'n datblygu, a chyrraedd y safonau yn y ffordd hawsaf bosibl, gyda rhagor o lwyth gwaith o bosibl ac effaith andwyol ar les staff.

15.2.5. Gwnaed nifer fawr o sylwadau ar y straen, y fiwrocratiaeth a'r baich ychwanegol ar wasanaethau oedd eisoes dan bwysau. Roedd, unwaith eto, bryderon y byddai'r newidiadau'n effeithio'n anghymesur ar fferyllfeydd annibynnol bach o'i gymharu â chwmnïau lluosog mawr.

15.2.6. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na fyddai'r newidiadau'n debygol o effeithio ar berchnogion gan eu bod ymhell o fusnes dydd i ddydd fferylliaeth.

15.2.7. Soniodd rhai am y cyfle fyddai'n dod yn sgil y cynigion i ddal perchnogion i gyfrif a'u gwneud yn fwy cyfrifol am y gwasanaeth a ddarperir.

## 15.3. Effaith y newidiadau ar y tîm fferyllol

*Tabl 14. Effaith ar y tîm fferyllol: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar y tîm fferyllol? | N a % unigolion | N a % sefydliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Effaith gadarnhaol** | 138 (20%) | 18 (15%) | **156 (19%)** |
| **Effaith negyddol** | 149 (22%) | 27 (22%) | **176 (22%)** |
| **Effaith gadarnhaol a negyddol** | 367 (54%) | 68 (55%) | **435 (54%)** |
| **Dim effaith** | 10 (1%) | 5 (4%) | **15 (2%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 20 (3%) | 5 (4%) | **25 (3%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

15.3.1. Fel y mae Tabl 14 yn ei ddangos uchod, roedd mwyafrif yr unigolion a'r sefydliadau o'r farn y byddai'r effaith ar y tîm fferyllol yn gadarnhaol ac yn negyddol.

15.3.2. Rhoddodd tua thraean o'r ymatebwyr sylwadau pellach ynghylch y cwestiwn hwn. Roedd llawer ohonynt o'r farn mai eu perfformiad fyddai'n pennu sut byddai'r newidiadau yn effeithio ar fferyllfeydd a'r tîm. Mewn geiriau eraill:

- byddai canlyniadau cadarnhaol yn arwain at falchder ac awydd i wella darpariaeth yn barhaus, a pharodrwydd i hysbysebu'r arfer dda a'r canlyniad ymhellach, a
- chanlyniadau negyddol yn effeithio'n andwyol ar forâl staff a pherchnogion fferyllol, ac ni fyddent am i'w canlyniadau gael eu hysbysebu'n eang

15.3.3. Tra bo llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai'r newidiadau'n helpu i yrru gwelliant ac yn cael effaith gadarnhaol ar staff fferyllol, roedd nifer uchel gyfatebol yn rhagweld y byddai arferion gwaith mwy amddiffynnol yn datblygu ac y byddai hyn yn cael effaith wael ar staff fferyllol.

15.3.4. Roedd y rhai oedd yn rhagweld effaith gadarnhaol yn teimlo y byddai'r cynigion yn:

- rhoi eglurder i'r tîm fferyllol ar yr hyn roedd angen iddynt ei gyflawni ac anelu ato ac y byddai hyn yn peri iddynt ffocysu ar y safonau
- defnyddiol i berchnogion am y byddai'n eu hysgogi i wella gwasanaethau ac yn dal perchnogion i gyfrif
- arwain at lai o dargedau a gwell amodau gwaith, datblygiad staff a hyfforddiant i'r tîm fferyllol
- galluogi'r tîm i ddysgu o adroddiadau eraill ac arferion da

15.3.5. Roedd y rhai oedd yn rhagweld effaith negyddol yn teimlo y byddai:

- y cynigion yn ychwanegu at faich biwrocrataidd fferyllfeydd oedd eisoes dan bwysau
- arolygiadau heb rybudd yn ychwanegu at lefelau straen a phryder y tîm fferyllol
- canlyniad negyddol yn effeithio'n andwyol ar forâl y tîm ac y gallai hynny effeithio ar y busnes
- fferyllfeydd dan bwysau i gyrraedd y safonau, ac y gallai hyn gael effaith negyddol ar lwythi gwaith a lles staff fferyllol – e.e. gallai perchnogion fferyllfeydd osod rhagor o dargedau ar staff fferyllol (yn enwedig mewn fferyllfeydd lluosog mawr)

- llawer o bwysau'n cael ei roi ar y tîm fferyllol yn ystod arolygiadau o ran pethau nad oes ganddynt reolaeth drostyn nhw, neu fawr ddim rheolaeth – e.e. lefelau staffio, cyflwr y fferyllfa ac ati

15.3.6. Soniodd rhai ymatebwyr am effaith anghymesur o bosibl ar:

- staff fferyllol sy'n dioddef o bryder – e.e. yn ystod arolygiadau heb rybudd
- fferyllwyr hŷn neu agored i niwed – roedd rhai'n teimlo y byddai pwysau a gwaith papur ychwanegol yn eu cymell i adael y proffesiwn
- staff rhan amser (sy'n fenywod yn aml), staff beichiog neu sy'n dychwelyd i'r gwaith wedi cyfnod mamolaeth – e.e. yn ystod arolygiadau, neu pan fo disgwyl iddynt gyflwyno gwelliannau wedi arolygiad

## 15.4. Effaith y newidiadau ar unigolion neu grwpiau'n rhannu nodweddion gwarchodedig

*Tabl 15. Effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig: Dadansoddiad o'r ymatebion*

| **Ydych chi'n credu y bydd unrhyw beth yn y cynigion yn cael effaith – gadarnhaol neu negyddol – ar unigolion penodol neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion a restrir uchod?** | **N a % unigolion** | **N a % sefydliadau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **√** | 113 (17%) | 17 (14%) | **130 (16%)** |
| **X** | 380 (56%) | 75 (61%) | **455 (56%)** |
| **Ddim yn gwybod** | 191 (28%) | 31 (25%) | **222 (28%)** |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684 (100%)** | **123 (100%)** | **807 (100%)** |

15.4.1. Fel y mae Tabl 15 yn ei ddangos uchod, nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr, o blith unigolion a sefydliadau, yn rhagweld effaith negyddol o gwbl ar unigolion neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

15.4.2. Dim ond rhyw un o bob wyth a roddodd sylwadau ychwanegol am y cwestiwn hwn.

15.4.3. Soniodd rhai ymatebwyr y byddai'r tryloywder a hygyrchedd ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr fferyllfeydd, gydag unigolion â nodweddion gwarchodedig yn eu plith - soniwyd yn benodol am bobl oedrannus, pobl ag anableddau a grwpiau lleiafrifol mewn ychydig o'r sylwadau.

15.4.4. Roedd llawer o sylwadau, fodd bynnag, ar effaith negyddol bosibl ar bobl hŷn neu bobl ag anableddau dysgu neu gorfforol. Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai'r rhain gael trafferth pe bai'n rhaid iddynt symud i fferyllfa arall oherwydd canlyniad a graddfa gwael (efallai na fyddai fferyllfa arall ar gael iddynt hyd yn oed). Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio ar y dryswch a'r pryder y gallai canlyniad negyddol eu creu iddynt, ac y gallai hyn arwain at golli ffydd mewn fferylliaeth a dinistrio'r berthynas rhyngddynt a'r tîm fferyllol lleol neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda'u hanghenion meddyginiaethol. Soniwyd hefyd am y ffaith

na fyddai'n bosibl i'r grwpiau hyn fanteisio ar y tryloywder ychwanegol, gan ei bod yn bosibl nad oedden nhw'n llythrennol mewn TG.

15.4.5. Soniwyd eto gan sawl ymatebydd am yr effaith andwyol fyddai'n dod yn sgil straen ychwanegol ar staff fferyllol oedd yn dioddef o bryder a chyflyrau meddygol eraill, neu ar staff anabl neu feichiog (gweler adran 15.3.6 uchod).

15.4.6. Roedd sylwadau unigol hefyd ar effaith negyddol bosibl ar grefydd a hil.

## 16. Proffil ymatebwyr

Roedd cyfres o gwestiynau cychwynnol yn gofyn am wybodaeth ynghylch lleoliad cyffredinol unigolion, ac ym mha rinwedd yr oedden nhw'n ymateb i'r arolwg. Gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol, gofynnwyd cwestiynau pellach i weld a oeddent yn oruchwylwyr neu'n berchnogion fferyllfa. Holwyd perchnogion fferyllfeydd am faint eu busnes. Ar gyfer ymatebwyr ar ran sefydliadau, roedd cwestiwn am y math o sefydliad roedden nhw'n gweithio iddo. Mae'r Tablau isod yn dadansoddi'r ymatebion.

### 16.1. Categorïau ymatebwyr

*Tabl 16. Ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad*

| **Ydych chi'n ymateb:** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Fel unigolyn | 684 | 85% |
| Ar ran sefydliad | 123 | 15% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **807** | **100%** |

### 16.2. Proffil ymatebwyr unigol

*Tabl 17. Ymatebwyr unigol - gwledydd*

| **Ble rydych chi'n byw?** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Lloegr | 570 | 83% |
| Yr Alban | 63 | 9% |
| Cymru | 34 | 5% |
| Gogledd Iwerddon | 2 | <1% |
| Arall | 15 | 2% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684** | **100%** |

*Tabl 18. Proffil ymatebwyr unigol*

| **Ydych chi'n ymateb fel:** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Fferyllydd | 556 | 81% |
| Technegydd fferyllol | 93 | 14% |

| | | |
|---|---|---|
| Perchennog fferyllfa nad yw'n gofrestredig fel fferyllydd na thechnegydd fferyllol | 0 | 0% |
| Aelod o'r tîm fferyllol nad yw'n gofrestredig gyda'r CFfC (e.e. dosbarthwr, gyrrwr, rheolwr fferyllfa nad yw'n aelod, cynorthwyydd cownter ac ati) | 6 | 1% |
| Aelod o'r cyhoedd | 17 | 2% |
| Arall | 12 | 2% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **684** | **100%** |

*Tabl 19. Goruchwyliwr fferyllol: ydw/nac ydw*

| **Ydych chi'n oruchwyliwr fferyllol?**[5] | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Ydw | 85 | 15% |
| Nac ydw | 471 | 85% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **556** | **100%** |

*Tabl 20. Perchennog fferyllfa: ydw/nac ydw*

| **Ydych chi'n berchennog fferyllfa?**[6] | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Ydw | 71 | 11% |
| Nac ydw | 578 | 89% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **649** | **100%** |

*Tabl 21. Math o fferyllfa a berchenogir*

| **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r fferyllfa rydych chi'n berchen arni orau?**[7] | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Unig fasnachwr | 22 | 32% |
| Partneriaeth | 13 | 18% |
| Corff corfforaethol | 36 | 50% |

[5] Atebwyd y cwestiwn hwn gan bob fferyllydd.
[6] Atebwyd y cwestiwn hwn gan bob fferyllydd a thechnegydd fferyllol.
[7] Atebwyd y cwestiwn hwn gan bob perchennog fferyllfa.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **71** | **100%** |

*Tabl 22. Gweithio mewn fferyllfa gofrestredig*

| **Ydych chi'n gweithio mewn fferyllfa gofrestredig?[8]** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Ydw | 474 | 81% |
| Nac ydw | 110 | 19% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **584** | **100%** |

*Tabl 23. Prif faes gwaith*

| **Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio eich prif faes gwaith orau:** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Fferyllfa gymunedol | 489 | 73% |
| Fferyllfa ysbyty | 70 | 10% |
| Sefydliad gofal sylfaenol | 50 | 8% |
| Diwydiant fferyllol | 9 | 1% |
| Hyfforddiant ac addysg fferyllol | 15 | 2% |
| Arall (rhowch fanylion) | 34 | 5% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **667** | **100%** |

*Tabl 24. Math o fferyllfa gymunedol*

| **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r math o fferyllfa rydych chi'n berchen arni neu'n gweithio ynddi orau?[9]** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Fferyllfa annibynnol neu gadwyn fferyllol (1-5 fferyllfa) | 184 | 38% |
| Cadwyn aml-fferyllfa fach (6-20 fferyllfa) | 54 | 11% |
| Cadwyn aml-fferyllfa fawr (21 neu ragor o fferyllfeydd) | 251 | 51% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **489** | **100%** |

[8] Atebwyd y cwestiwn hwn gan unigolion yn gweithio mewn fferylliaeth.
[9] Atebwyd y cwestiwn hwn gan unigolion yn gweithio mewn fferyllfa gymunedol.

## 16.3. Proffil sefydliadau a ymatebodd

*Tabl 25. Ymateb ar ran fferyllfa gofrestredig*

| Ydych chi'n ymateb ar ran fferyllfa gofrestredig? | N | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Ydw | 78 | 63% |
| Nac ydw | 45 | 37% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **123** | **100%** |

*Tabl 26. Math o fferyllfa gofrestredig*

| Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'r fferyllfa rydych chi'n ei chynrychioli orau.[10] | N | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Fferyllfa gymunedol | 63 | 81% |
| Fferyllfa ysbyty | 8 | 10% |
| Fferyllfa o fewn sefydliad gofal sylfaenol | 3 | 4% |
| Arall (rhowch fanylion) | 4 | 5% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **78** | **100%** |

*Tabl 27. Ymatebwyr ar ran sefydliad: math o sefydliad*

| Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'ch sefydliad orau: | N | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Corff neu sefydliad yn cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd | 7 | 15% |
| Corff neu sefydliad yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol neu'r sector fferyllol | 24 | 52% |
| Sefydliad neu grŵp GIG | 7 | 17% |
| Sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant | 0 | 0% |
| Adran neu sefydliad llywodraethol | 1 | 2% |
| Corff Rheoleiddio | 2 | 4% |
| Arall (rhowch fanylion) | 4 | 9% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **45** | **100%** |

[10] Atebwyd y cwestiwn hwn gan bawb oedd yn cynrychioli fferyllfa gofrestredig.

*Tabl 28. Math o fferyllfa gymunedol*

| **Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'r fferyllfa gymunedol rydych chi'n ei chynrychioli orau.**[11] | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Fferyllfa annibynnol neu gadwyn fferyllol (1-5 fferyllfa) | 47 | 75% |
| Cadwyn aml-fferyllfa fach (6-20 fferyllfa) | 4 | 6% |
| Cadwyn aml-fferyllfa fawr (21 neu ragor o fferyllfeydd) | 12 | 19% |
| **Cyfanswm N ymatebwyr** | **63** | **100%** |

[11] Atebwyd y cwestiwn hwn gan bawb oedd yn cynrychioli fferyllfa gymunedol.

# Atodiad 1: Sefydliadau

Bu’r sefydliadau canlynol ynghlwm wrth yr ymgynghoriad **naill ai** drwy’r arolwg ar-lein, ymatebion e-bost a/neu gyfarfodydd/digwyddiadau rhanddeiliad:

Airedale pharmacy

Alexanders pharmacy

Applegate

Association of Independent Multiple Pharmacies (AIM)/Cymdeithas Fferyllfeydd Lluosog Annibynnol

Association of Pharmacy Technicians UK (APTUK)/Cymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU

Avicenna Membership Services Ltd

Barnet Enfield and Haringey LPC

Blackwell Pharmacy

BLM Law

Boots UK Ltd

Bristol Community Health

Britannia Pharmacy

Broughton Park Pharmacy Ltd

Buchanhaven Pharmacy Ltd

Care Inspectorate

Care Quality Commission

CD AccounTabl Officers Network Scotland

County Durham & Darlington LPC

Celesio UK

CG Murray & Son Ltd

Cobrest Ltd t/a H. Lloyd Chemist

Communication Workers Union North West Safety Forum

Community Pharmacy Cheshire and Wirral

Community Pharmacy Humber

Community Pharmacy Lancashire

Community Pharmacy Lincolnshire

Community Pharmacy Scotland

Community Pharmacy Sheffield

Community Pharmacy Surrey & Sussex

Community Pharmacy West Yorkshire

Community Pharmacy Wales/ Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Company Chemists Association

Copmanthorpe Pharmacy ltd

Coventry LPC

Crescent Pharmacy

D. R. Harris

Day Lewis Pharmacy

Department of Health/ Adran Iechyd

Derbyshire LPC

Direct pharmacy

Doncaster LPC

Dudley LPC

Easton day night chemist

Elms Pharmacy Ltd

Everetts Pharmacy

Ft taylor pharmacy

G Rowe Services Ltd

G&S Healthcare Ltd

Glemsford Pharmacy

Globe

Gloucestershire LPC

Greater Manchester Local Pharmaceutical Committee

Guild of Healthcare Pharmacists

H.M. Odell Limited

Health Education England

Healthcare at Home

Healthcare Improvement Scotland

Healthwatch Bedford Borough

Healthwatch Bromley

Healthwatch England

Healthwatch Lewisham

Healthwatch Milton Keynes

Healthwatch North Tyneside

Healthwatch Waltham Forest

Healthwatch West Sussex

Hospital Pharmacy Services (Nottingham) Limited

Howells & Jolley

i-dispense

Internet Pharmacy Ltd

Jennings Chemist

Khan Pharmacy

Kingston Hospital NHS Foundation Trust

Kirkmuirhill Pharmacy

Leicestershire Partnership NHS Trust

Leyes Lane Pharmacy ltd

Lincolnshire LPC

Lindsay & Gilmour

Liverpool LPC

Lloyds pharmacy

Long Eaton Healthcare Ltd

M & M Pharmacy

MD & AG Burdon Ltd

Medipharma UK Limited

Meds R Us LTD

Middleway Pharmacy

Murrays Healthcare

My Pharmacy

National Pharmacy Association/ Cymdeithas Fferyllol Genedlaethol

NHS Education for Scotland

NHS England

NHS England (Health and Justice commissioning)

NHS England SE KSS

NHS Grampian

NHS Greater Glasgow & Clyde

NHSE Central Midlands

North of Tyne LPC

Northampton General Hospital

Northcare Pharmacies

Northern Devon Healthcare NHS Trust

Northamptonshire LPC

Nottinghamshire LPC

Nuffield Health

Numark Ltd

O'Briens Pharmacies Ltd

PCT Healthcare Limited

PharmaCare Solutions UK Ltd

Pharmacists' Defence Association

Pharmacy Law & Ethics Association

Pharmacy London-Chair, Bexley, Bromley & Greenwich LPC-CEO & Lambeth, Southwark & Lewisham LPC-CEO

PharmaPlus Ltd

Pharmasure Ltd

Polar Speed Distribution Ltd

Prima Pharmacy

Professional Standards Authority/ Awdurdod Safonau Proffesiynol

Pharmaceutical Services Negotiating Committee (PSNC)/ Pwyllgor Negodi Gwasanaethau Fferyllol

Rays chemist

Rifaray Pharmacy

Riverside Pharmacy

Rotherham LPC

Rowlands Pharmacy

Royal Pharmaceutical Society/ Cymdeithas Fferyllol Frenhinol

Salmina Ltd

Sandwell LPC

Scottish Government Health and Social Care Directorate

Scottish Independent Advocacy Alliance

Sheffield LPC

Shelf Pharmacy Limited

Shirley Pharmacy Ltd

Silverdale pharmacy

SKF Lo (Chemist) Ltd

South Staffordshire LPC

Spire Health Care Plc

Stepping Hill Healthcare Enterprises Limited

Sudbury Court ltd

Superdrug Stores plc

Swindon and Wiltshire LPC

Tees LPC

Walter Lloyd & Son Pharmacy

Weldricks Pharmacy

Welsh Government/ Llywodraeth Cymru

Welsh Pharmaceutical Committee/ Pwyllgor Fferylliaeth Cymru

Whithorn Pharmacy

WISE

www.chemist-4-u.com

York Medical Pharmacy

## Atodiad 2: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu hel at ei gilydd

Yn adran Cyflwyno mathau newydd o arolygiadau, rydym yn disgrifio'r math o newidiadau y gobeithiwn eu gwneud i'r arolygiadau a gynhelir gennym.

1. Ydych chi'n credu y bydd y tri math o arolygiad (arferol, thematig ac wedi eu harwain gan wybodaeth) yn:
    - rhoi mwy o sicrwydd bod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau?
    - ein galluogi i fod yn fwy ymatebol i risgiau neu newidiadau mewn fferylliaeth neu ofal iechyd?
    - helpu i yrru gwelliant drwy nodi a rhannu arfer dda?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiynau.
2. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y mathau o arolygiadau?

Yn yr adran Arolygiadau heb rybudd, rydym yn disgrifio ein cynlluniau i symud o arolygiadau gyda rhybudd i rai heb rybudd o flaen llaw fel arfer ar gyfer arolygiadau arferol a rhai wedi eu harwain gan wybodaeth.

3. Ydych chi'n credu bod symud o arolygiadau gyda rhybudd i rai heb rybudd fel rheol gyffredinol yn rhoi mwy o sicrwydd bod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau bob dydd?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'. Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.
4. Rydym wedi nodi sefyllfaoedd lle gallai fod yn amhosibl cynnal arolygiad heb rybudd. Oes sefyllfaoedd eraill y dylem eu hystyried?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.
5. Disgrifiwch sefyllfaoedd eraill y dylem eu hystyried.
6. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am reol gyffredinol cynnal arolygiadau heb rybudd?

Yn adran Newidiadau i ganlyniadau arolygiadau y ddogfen ymgynghori, rydym yn disgrifio'r newidiadau yr ydym am eu cyflwyno i ganlyniadau arolygiadau.

7. Rydym yn cynnig cael dau ganlyniad cyffredinol posibl mewn arolygiad – 'safonau wedi eu cyrraedd' a 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn ei gwneud hi'n glir i gleifion, y cyhoedd a pherchnogion fferyllfeydd bod fferyllfa wedi cyrraedd, neu heb gyrraedd, y safonau?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.. Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.
8. Rydym yn cynnig cael pedwar canlyniad posibl ar gyfer pob un o'r egwyddorion – 'safonau i gyd heb eu cyrraedd', 'safonau wedi eu cyrraedd', 'arfer dda' ac 'arfer ragorol'.

    Ydych chi'n credu y bydd hyn yn::
    - rhoi dull mesur perfformiad i berchnogion, eu timau a'r CFC?
    - parhau i yrru gwelliant yn ei flaen?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiynau.

.

Mae cleifion wedi dweud wrthym y dylai fferyllfa gyrraedd pob un o'r safonau i allu derbyn y canlyniad 'safonau wedi eu cyrraedd'. Golyga hyn y byddai methu â chyrraedd un safon yn arwain at ganlyniad cyffredinol 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'.

9. Ydych chi'n credu y dylai methu â chyrraedd un safon olygu bod fferyllfa yn derbyn canlyniad cyffredinol 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'?

   Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

   Nodwch sylwadau i egluro'ch ymatebion.

10. Oes gennych unrhyw sylwadau am eiriad canlyniad cyffredinol arolygiadau, sef 'safonau wedi eu cyrraedd' a 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'?

11. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig i ganlyniad arolygiad?

Yn yr adran Cyhoeddi rydym yn disgrifio ein cynlluniau i gyhoeddi adroddiadau arolygu unigol ar gyfer arolygiadau arferol a rhai wedi eu harwain gan wybodaeth ac adroddiad cyfansawdd ar gyfer arolygiadau thematig.

12. Ydych chi'n credu y dylem gyhoeddi adroddiadau arolygu?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymatebion.

13. Ydych chi'n credu y bydd cyhoeddi adroddiadau arolygu yn:

    - rhoi mwy o dryloywder ynghylch canlyniad arolygiad?
    - rhoi sicrwydd clir i ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol bod fferyllfa wedi cyrraedd y safonau?
    - galluogi'r sector fferylliaeth cyfan i ddefnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiadau i wella?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiynau.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymatebion.

14. Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch fformat a chynnwys yr adroddiadau cryno, manwl a thematig? Mae enghreifftiau o dempledi'r adroddiad newydd ar ein gwefan.

15. Ydych chi'n credu y dylem gyhoeddi cynlluniau gweithredu gwella?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymatebion.

16. Ydych chi'n credu y dylai fod disgwyl ar berchnogion fferyllfeydd i arddangos canlyniad eu harolygiad yn y fferyllfa?

Nodwch ‘Ydw’, ‘Nac ydw’ neu ‘Ddim yn gwybod’.

Nodwch sylwadau i egluro’ch ymateb.

Yn adran Y wefan a’r hyb gwybodaeth y ddogfen ymgynghori rydym yn disgrifio ein cynlluniau i gyhoeddi’r adroddiadau ar wefan ryngweithiol ac i gyflwyno hyb gwybodaeth i ddangos a rhannu enghreifftiau o safonau heb eu cyrraedd ac arfer dda a rhagorol.

17. Ydych chi’n credu y bydd y wefan ryngweithiol a’r hyb gwybodaeth yn:

- gwneud gwybodaeth yn hawdd ei chyrchu?
- annog rhannu gwybodaeth o fewn y sector fferylliaeth?
- galluogi dysgu gan enghreifftiau o safonau na chafodd eu cyrraedd, ac o arfer dda a rhagorol?
- gyrru gwelliannau fferyllol yn eu blaen?

Nodwch ‘Ydw’, ‘Nac ydw’ neu ‘Ddim yn gwybod’.

Nodwch sylwadau i egluro’ch ymateb.

Yn yr adran Cyhoeddi adroddiadau arolygu, rydym yn disgrifio’r broses y byddwn yn ei dilyn wrth sicrhau ansawdd a chyhoeddi adroddiadau arolygu.

18. Oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses gyhoeddi?

Nodwch sylwadau i egluro’ch ymateb.

Cwestiynau cyffredinol am y cynigion hyn

19. Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar bobl sy’n defnyddio gwasanaethau fferyllol?

Nodwch ‘effaith gadarnhaol ‘effaith negyddol’, ‘effaith gadarnhaol a negyddol’, ‘dim effaith, neu ‘ddim yn gwybod’.

Nodwch sylwadau i egluro’ch ymateb.

20. Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar berchnogion fferyllfeydd cofrestredig?

Nodwch ‘effaith gadarnhaol ‘effaith negyddol’, ‘effaith gadarnhaol a negyddol’, ‘dim effaith, neu ‘ddim yn gwybod’.

Nodwch sylwadau i egluro’ch ymateb.

21. Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar y tîm fferyllol?

Nodwch ‘effaith gadarnhaol ‘effaith negyddol’, ‘effaith gadarnhaol a negyddol’, ‘dim effaith, neu ‘ddim yn gwybod’.

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

Rydym am ddeall a allai ein cynigion gamwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolion sy'n rhannu unrhyw rai o nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010, neu gael eu rhoi, yn anfwriadol, dan anfantais ganddynt.

Y nodweddion yw:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gredo
- Rhyw
- Tuedd rywiol

22. Ydych chi'n credu y bydd unrhyw beth yn y cynigion yn cael effaith – gadarnhaol neu negyddol – ar unigolion penodol neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion a restrir uchod?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

23. Ydych chi'n credu y bydd effeithiau eraill i'n cynigion nad ydych eisoes wedi eu crybwyll?

# Atodiad 3: Arolwg YouGov[12] – cwestiynau a thablau perthnasol

*Tabl 7 YouGov[13]. Ffactorau'n dylanwadu ar ddewis fferyllfa*

| Ar gyfer y cwestiwn canlynol, dychmygwch eich bod yn dymuno ymweld â fferyllfa. **Pa un, os unrhyw un/rai, o'r ffactorau canlynol fyddai'n effeithio ar eich penderfyniad ynghylch pa fferyllfa i fynd iddi? (Dewiswch bob un perthnasol. Os na fyddai unrhyw beth yn benodol yn dylanwadu ar eich dewis o ran pa fferyllfa i fynd iddi, dewiswch yr opsiwn 'Ddim yn berthnasol')[14]** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cyfleustra ( o ran lleoliad/hygyrchedd) | 1616 | 79% |
| A ydw i wedi cael profiad cadarnhaol o'r fferyllfa yn flaenorol | 775 | 38% |
| Argymhelliad gan rywun rwyf yn ei adnabod (e.e. ffrind, aelod o'r teulu ac ati) | 191 | 9% |
| Canlyniad yr arolygiad diwethaf a wnaed ar y fferyllfa gan y rheoleiddiwr fferyllol | 53 | 3% |
| Ystof y cynnyrch a'r/neu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y fferyllfa | 575 | 28% |
| Arall | 70 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 36 | 2% |
| Ddim yn berthnasol – ni fyddai unrhyw beth yn benodol yn dylanwadu ar fy mhenderfyniad ynghylch pa fferyllfa i'w defnyddio | 196 | 10% |
| **Sail: Holl oedolion Prydain** | **2040** | **100%** |

*Tabl 8 YouGov. Ymweld â fferyllfa 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' eto*

| **Ar gyfer y cwestiwn canlynol, dychmygwch bod eich fferyllfa leol (h.y. yr un rydych chi'n ymweld ag ef yn fwyaf aml) wedi derbyn canlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' mewn arolygiad… Pa mor debygol, os o gwbl, y byddech chi o ddefnyddio'r fferyllfa honno eto?** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|

[12] Cafodd arolwg YouGov ei gomisiynu gan y CFfC. Roedd hefyd yn cynnwys cwestiynau eraill nad oedd yn ymwneud â chynigion yr ymgynghoriad.
[13] Sylwer bod rhifau'r tablau yn dilyn yr un drefn â'r adroddiad hwn ac nid ydynt yn adlewyrchu trefn y cwestiynau yn arolwg YouGov.
[14] Sylwer bod ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn gallu dewis mwy nag un ateb.

| | | |
|---|---|---|
| Tebygol iawn | 198 | 10% |
| Eithaf tebygol | 720 | 35% |
| Ddim yn debygol iawn | 647 | 32% |
| Ddim yn debygol o gwbl | 148 | 7% |
| Ddim yn gwybod | 327 | 16% |
| **Sail: Holl oedolion Prydain** | **2040** | **100%** |

*Tabl 9 YouGov. Ymweld â fferyllfa 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' (gyda chynllun gwella) eto*

| **Ar gyfer y cwestiwn canlynol, dychmygwch bod eich fferyllfa leol (h.y. yr un rydych chi'n ymweld ag ef yn fwyaf aml) wedi derbyn canlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd' mewn arolygiad ond eich bod yn cael gwybod ei bod yn y broses o gwblhau 'cynllun gwella'.** Mae cynllun gwella yn nodi'r camau y bydd perchennog fferyllfa yn eu gweithredu er mwyn cyrraedd y safonau nad yw'r fferyllfa wedi eu cyrraedd ac mae'n cynnwys dyddiad erbyn pryd y bydd y gwelliannau wedi eu cyflwyno. Bydd arolygwr o'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) yn monitro cynnydd ac yn adolygu a yw'r gwelliannau wedi eu cwblhau. **Pa mor debygol, os o gwbl, y byddech chi i ymweld â'r fferyllfa honno eto?** | **N** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Tebygol iawn | 367 | 18% |
| Eithaf tebygol | 1023 | 50% |
| Ddim yn debygol iawn | 341 | 17% |
| Ddim yn debygol o gwbl | 50 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 259 | 13% |
| **Sail: Holl oedolion Prydain** | **2040** | **100%** |